



ADRODDIAD BLYNYDDOL A
CHYFRIFON YR ASIANTAETH
SAFONAU BWYD YNG NGHYMURU
2016/17

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru 2016/17

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017)



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Bwyd, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/government/publications

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost at financial.accounting@foodstandards.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

CYNNWYS

ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg o Berfformiad	2
Datganiad y Prif Weithredwr	4
Gweithgareddau a Pherfformiad yn ystod 2016/17	6
Y prif risgiau ac elfennau ansicr	46
Dadansoddiad o Berfformiad (SAESNEG O HYN YMLAEN)	47
Camau gorfodi ffurfiol	47
Cwynion, gan gynnwys y rheiny a wnaed i'r Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd	49
Adroddiadau Cynaliadwyedd	50

ATEBOLRWYDD

Adroddiad y Cyfarwyddwr	53
Manylion y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr	53
Sylwadau'r Tîm Rheoli	56
Datganiad o ddyletswyddau'r Swyddog Cyfrifyddu	63
Datganiad Llywodraethol yr ASB 2016/2017	63
Adroddiad Tâl	74
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin	88

Y CYFRIFON

Datganiadau ariannol	90
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	90
Datganiad o Safle Ariannol	91
Datganiad o Lif Ariannol	92
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwr	93
Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau Adrannol	94
Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysordy	105

ADRODDIAD PERFFORMIAD

RHAGAIR Y CADEIRYDD



Dechreuais yn fy rôl fel Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ddechrau 2016 gyda chynllun uchelgeisiol i foderneiddio'r system rheoleiddio bwyd. Er bod gan y cyhoedd lawer o hyder yn y systemau sydd ar waith heddiw, rydym ni'n gwybod bod y system fwyd ryngwladol yn newid ar wib. Daw hanner ein bwyd o wledydd eraill. Mae technoleg yn chwarae rôl fwy nag erioed. Mae arferion bwyd – yr hyn yr ydym ni'n ei fwyta, a ble – yn prysur newid. Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn parhau yn

gyfredol â'r holl newidiadau hyn, drwy ddarparu cyfundrefn safonau bwyd a bwyd anifeiliaid gadarn, gwydn ac ystwyth ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Chwefror y llynedd, sefydlodd yr ASB raglen 'Rheoleiddio Ein Dyfodol'. Ers hynny, rydym wedi datblygu glasbrint a phrif nodweddion model newydd ar gyfer rheoleiddio bwyd, un sy'n seiliedig ar risg ac sy'n gymesur. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd creu polisi agored, gyda chyfranwyr o bob rhan o'r byd bwyd. Rydym ni eisoes yn gweld gwelliannau enfawr posibl o ran effeithiolrwydd rheoleiddio bwyd, er mwyn helpu busnesau i gydymffurfio drwy'r adeg, ac er mwyn i ni allu gweithredu ar y rheiny nad ydynt yn gyflymach ac yn gadarnach. Ein nod yw creu a gweithredu dyluniad terfynol erbyn 2020.

Mae'r ASB yn cymryd camau gweithredu yn ddyddiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a chynnal eu ffydd. Mae'r gwerthoedd sydd wrth wraidd yr adran yn sail i'n holl waith. Rydym ni'n rhoi defnyddwyr yn gyntaf. Rydym ni'n seilio ein penderfyniadau ar wyddoniaeth a thystiolaeth. Rydym ni'n agored ac yn dryloyw.

Mae gweithgareddau a phenderfyniadau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn. Eleni, rydym ni wedi:

- Penodi Cyngor Gwyddoniaeth annibynnol newydd. Mae'r Cyngor, dan arweiniad yr Athro Sandy Thomas, yn cynnig mewnwleidiad, her a chyngor strategol, arbenigol, lefel uchel i Brif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB ar ddefnydd yr Asiantaeth o wyddoniaeth i gyflawni ei hamcanion.
- Cynnal Adolygiad o'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Yn dilyn yr Adolygiad trylwyr a chynhwysfawr, dan arweiniad David Kenworthy, gwnaed nifer o argymhellion gan gynnwys datblygu gallu ymchwilio ar gyfer yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Rydym ni wrthi'n paratoi achos busnes ar gyfer Trysorlys ei Mawrhydi.
- Galw parhaus am ddefnydd gorfodol o deledu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai. Rydym ni o'r farn bod CCTV yn adnodd rheoli gwerthfawr o ran helpu lladd-dai i gydymffurfio â monitro rheolaethau swyddogol. Byddwn yn cydweithio â Defra ac eraill i weld sut y gallwn gynnwys defnydd gorfodol o CCTV fel rhan o'n diwygiadau ehangach o'r drefn reoleiddio ar gyfer lladd-dai.

- Mabwysiadu rôl bwysig yn y frwydr yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd (*antimicrobial resistance*). Rydym yn cydweithio â phartneriaid rhyngwladol, adrannau Llywodraethol eraill, a chynhyrchwyr bwyd, i leihau'r defnydd o wrthficrobau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

Mae uchafbwyntiau eraill yn cynnwys MenuCal, sef adnodd ar-lein rhad ac am ddim sy'n helpu busnesau yng Ngogledd Iwerddon i reoli gwybodaeth am alergenau a chyfrifo nifer y calorïau yn eu bwyd. Ac yng Nghymru, mae hi bellach yn ofyniad i sefydliadau tecawê hyrwyddo eu Sgoriau Hylendid Bwyd ar fwydlenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill, a hynny yn ddwyieithog.

Nid ydym ni'n gallu rhagweld y dyfodol. Ond bydd yn rhaid i ni fod yn barod ar gyfer y dyfodol hwnnw. Dyna pam, dros y tair blynedd nesaf, bydd yr ASB yn canolbwyntio ar dair elfen hanfodol: trawsnewid drwy fodel Rheoleiddio Ein Dyfodol; rhagweld canlyniadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a chynllunio a gweithredu yn unol â hynny; rhagori ar ein swydd bob dydd.

Mae'r tair blaenoriaeth hyn yn cydblethu'n agos iawn. Bydd bywyd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn gofyn am system reoleiddio hyblyg a chadarn. Bydd sicrhau model rheoleiddio newydd sy'n gweithio, yn ei dro, yn rhoi i ni fwy o rym i ddiogelu defnyddwyr o fewn system fwyd fyd-eang sy'n esblygu ar ras. Fe allai hefyd ehangu ein dylanwad rhyngwladol ar safonau bwyd modern. Wrth wynebu cymaint o newid, mae'n rhaid sicrhau bod y peiriant rheoleiddio yn parhau i weithredu yn llyfn.

Bydd cyflawni hyn yn gywir yn golygu bod yr ASB yn cynnal ac yn gwella ffydd y cyhoedd. Drwy'r system hon, bydd fy adran yn cymryd camau breision tuag at gyflawni dyhead yr ASB o gael ei hystyried, yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt, fel rheoleiddiwr gwyb, atebol a modern.

Eleni, fe ymadawodd nifer o bobl â Bwrdd yr ASB: Camodd Tim Bennett, ein Dirprwy Gadeirydd a chyn Gadeirydd y Bwrdd, i lawr ar ôl degawd o wasanaeth i'r adran; Daeth cyfnodau Jeff Halliwell, Dr Roland Salmon, Dr Etta Campbell a Paul Wiles â'r Bwrdd i ben hefyd. Rydym ni'n estyn croeso cynnes i'r aelodau newydd, Dr Ruth Hussey (Aelod Bwrdd dros Gymru), Colm McKenna (Aelod Bwrdd dros Ogledd Iwerddon), David Brooks, Rosie Glazebrook, Stewart Houston a Paul Williams. Mae'r Bwrdd, sydd ag aelodaeth bron yn gwbl newydd, eisoes yn gweithio'n dda, gan dreulio amser o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gwrando ar randdeiliaid a deall eu disgwyliadau.

Camodd Catherine Brown lawr fel Prif Weithredwr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Un o gyfraniadau mwyaf cofiadwy Catherine oedd ei harweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â *Campylobacter*. Jason Feeney yw ein Prif Weithredwr newydd. Mae gan Jason hanes arwain llwyddiannus a phrofiad helaeth o sicrhau newid cymhleth ar draws y llywodraeth.

Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio â Jason a'n holl dîm, yn ogystal â'r sector bwyd ehangach, i wireddu potensial y newidiadau sydd i ddod ac i sicrhau ffydd y cyhoedd mewn bwyd.



Mrs Heather J Hancock
Cadeirydd

16 Mehefin 2017

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR



Mae'n bleser gen i osod, gerbron Senedd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chyflwyno i Senedd Gogledd Iwerddon, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r rhifyn hwn yn trafod ein perfformiad a'n gweithgareddau yn 2016/17 lle'r oeddem ni'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon am gost net o £91.9 miliwn.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn dda unwaith eto i'r ASB. Rydym ni wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y prif fentrau dros ddwy flynedd gyntaf ein cynllun strategol pum mlynedd hyd at 2020. Rwy'n hynod falch o ba mor bell yr ydym ni wedi dod a'r gwahaniaethau cadarnhaol rydym ni'n eu cyflawni ar gyfer defnyddwyr.

Mae ein gorchestion amlwg yn cynnwys y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd – mae safonau yn parhau i wella. Erbyn hyn, mae gan fwy na 94% o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sgôr 'Bodhaol ar y cyfan' neu uwch (3 neu uwch) ac mae gan 66% o fusnesau sgôr hylendid o 5 ('Da iawn').

Rydym ni'n parhau â'n dull dim goddefiant mewn perthynas â rheolau lles anifeiliaid. Yn 2016/17, fe weithredon ni ar 148 o ddigwyddiadau lles critigol mewn 55 o fusnesau (19%). Fe gefnogir hyn gan alwad gan y Bwrdd i wneud teledu cylch cyfyng (CCTV) yn orfodol mewn lladd-dai.

At hynny, mae cydymffurfiaeth lladd-dai hefyd wedi gwella – gyda bron i 97% o fusnesau cig â sgôr gydymffurfio 'Bodhaol' neu uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Roedd 100,000 yn llai o bobl yn sâl oherwydd *Campylobacter* yn 2016, sy'n arwyddocaol iawn. Roedd llawer yn dweud wrthym y byddai hyn yn amhosibl, ond dyma ni, dwy i dair blynedd yn ddiweddarach, yn lleihau baich y salwch ac yn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'n un o'r pethau yr ydym ni wedi'i gyflawni ar y cyd â'r diwydiant ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio ar agenda gyffredin.

Gan ddefnyddio ein modelau costio presennol, rydym ni'n amcangyfrif ar gyfer pob £1 o gyllideb, rydym ni'n cyfrannu oddeutu £1.50 i economi'r Deyrnas Unedig, gan olygu ein bod yn rhoi mwy yn ôl i'r wlad na'r costau o'n cynnal.

Mae gennym ni enw da a chryf. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ASB ar 76%, ac mae 66% o bobl yn ymddiried ynom i wneud ein gwaith – sy'n uwch nag erioed o'r blaen. Byddwn yn parhau i feithrin yr ymddiriedaeth honno.

Ac ar y llwyfan rhyngwladol, rydym wedi cynyddu ein gweithgarwch mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y Codex Alimentarius (y corff gosod safonau bwyd rhyngwladol). Yn ddiweddar, mae Codex wedi cytuno y bydd y Deyrnas Unedig, dan gynrychiolaeth yr ASB, yn arwain ar y gwaith o ddatblygu canllawiau rhyngwladol ar ddefnyddio ardystio trydydd parti mewn systemau rheoli bwyd cenedlaethol. Rwy'n edrych ymlaen at hynny a chyfleoedd eraill yn y cyfnod o'n blaenau.

Rydym wedi parhau i rannu ein gwaith arloesol yn y gyfres boblogaidd o adroddiadau gan ein Prif Gynghorydd Gwyddonol, ac mae gennym strategaeth ddata newydd fentrus i gyhoeddi'r holl ddata y gallwn ni.

Er mwyn diogelu defnyddwyr rhag peryglon annerbyniol, rydym wedi datblygu 'Fframwaith Bwyd sy'n Peri Risg' i asesu pa fwydydd a allai beri mwy o berygl fesul dogn. Rydym wrthi'n datblygu dull newydd, agored a chydweithredol o gadw gwyliadwriaeth. Bydd yn cael ei lywio gan ddata, gan ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ffynonellau a thechnegau, gweithio â gwledydd eraill sy'n awyddus i gydweithio â ni a mynd i'r afael â heriau tebyg.

Mae gofyn i ni fod y sefydliad gorau y gallwn fod er mwyn i ni allu parhau yn gyfredol â'r newidiadau o'n cwmpas, mae gofyn i ni reoli ein gwariant ac ymateb i risgiau newydd. Mae costau arolygu cig yr ASB wedi gostwng, rydym wedi trechu'r targed meddiannaeth arwynebedd a osodwyd gan y llywodraeth, rydym ni'n dangos pa mor ystwyth ydym ni gyda'n rhaglen 'Evolve IT' ac rydym ni wedi ychwanegu at ein casgliad o wobrau cyfathrebu. Byddwn o hyd yn ymdrechu i wneud ein gorau i ddefnyddwyr, ac mae ein cynllun busnes ar gyfer 2017/18 yn cynnwys ffocws o'r newydd ar ein galluoedd er mwyn i ni barhau i wella ein sgiliau a'n ffyrdd o weithio.

Mae llawer yn weddill i'w wneud, ond drwy gydol y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaeth, sef sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Jason Feeney

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2017

GWEITHGAREDDAU A PHERFFORMIAD YN YSTOD 2016/17

Gellir rhannu gweithgareddau'r ASB yn chwe thema, fel nodwyd yn ein cynllun strategol ar gyfer 2015-20¹. Mae ein cynllun busnes corfforaethol blynyddol yn dilyn y strwythur hwn².

Yn yr adran hon, rydym yn adrodd ar ein gweithgareddau a'n perfformiad ar gyfer 2016/17 yn erbyn y chwe phennawd hyn.



1 www.food.gov.uk/sites/default/files/Strategy%20FINAL.pdf

2 www.food.gov.uk/sites/default/files/Cynllun%20Strategol%202015-20%20%28Mehefin%202015%29_0.pdf

AMCAN CYFFREDINOL

Diogelu defnyddwyr rhag lefelau annerbyniol o risg

MAE BWYD
YN DDIOGEL

Prif fentrau yn y maes hwn:

YMGYRCH CAMPYLOBACTER

Amcan cyffredinol:

Sicrhau dyfodol lle nad yw Campylobacter mewn dofednod bellach yn fygythiad i iechyd pobl yn y Deyrnas Unedig; a lleihau costau cysylltiedig i economi'r Deyrnas Unedig.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

Parhau i gymell diwydiant dofednod y Deyrnas Unedig i leihau lefelau halogi Campylobacter ar ddofednod hyd nes:

- bodlonir y targed presennol ar gyfer lladd-dai.
- cofnodir gostyngiad yn nifer yr achosion o Campylobacter mewn pobl a gadarnheir mewn labordy, a bod cyfwerth â 100,000 yn llai o achosion o Campylobacter erbyn 1 Ebrill 2017.
- sicrhau mesurau rheoli parhaus a chynaliadwy gan broseswyr, manwerthwyr ac eraill o lefelau Campylobacter mewn dofednod ffres yn y Deyrnas Unedig.

Crynodeb o'r cynnydd:

Adeiladodd ymgyrch Campylobacter yr ASB ar y cynnydd da a wnaed yn 2015/16, a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y ganran o grwyn cywion ieir a oedd wedi'u halogi â lefelau uchel o Campylobacter. O ganlyniad i'r gwaith a ddechreuodd yr ASB, mae oddeutu 113,000 yn llai o achosion o Campylobacter mewn pobl yn 2016 o'i gymharu â'r llinell sylfaen.

BUDDIANNAU POBL SY'N AGORED I NIWED

Amcan cyffredinol:

Diogelu buddiannau pobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â bwyd.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

Defnyddio dulliau gwneud polisi agored er mwyn ymchwilio i p'un a oes modd nodi synergeddau rhwng gwahanol beryglon, grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr a all fod 'yn agored i niwed'³ a nodi pwy arall sy'n gweithio yn y meysydd hyn i nodi lle gall yr ASB gydweithio ag eraill er budd ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

3 Caiff 'agored i niwed' ei ystyried yn ei ystyr ehangaf (e.e. am resymau biolegol, ffisiolegol, arfer, cyd-destun).

Crynodeb o'r cynnydd:

Yn rhan o'r prosiect, cyflawnwyd gwaith i archwilio dull agored o wneud polisïau ar gyfer y gwaith ar fuddiannau pobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â bwyd.

PROSIECT GALW CYNNYRCH YN ÔL**Amcan cyffredinol:**

Adolygu a chynyddu effeithiolrwydd y mesurau olrhain, tynnu a galw cynnyrch yn ôl ar hyn o bryd, a hynny o safbwynt y diwydiant a'r awdurdod cymwys, er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu defnyddwyr yn effeithiol.

Amcanion ar gyfer 2016/17:



- Casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i asesu effeithiolrwydd y prosesau cyffredol.
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar systemau wrth nodi a rhoi'r camau gweithredu gofynnol ar waith i wella'r prosesau hynny er mwyn diogelu'r defnyddwyr mewn modd mwy effeithiol.



Crynodeb o'r cynnydd:

Cynhaliwyd cryn dipyn o waith ymchwil fel rhan o'r prosiect i asesu cwmpas y materion sydd ynghlwm â thynnu a galw cynnyrch yn ôl. Cynhaliwyd fforwm ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr hefyd, a chynhyrchwyd cynllun gweithredu lefel uchel.

**PERFFORMIAD****Clefydau a Gludir gan Fwyd**

Cyfrifoldeb y bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yw sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae afiechydon a gludir gan fwyd yn effeithio ar oddeutu miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn, gan gostio tua £1 biliwn i'r economi. Dyma ddangos achosion o'r pedwar prif bathogen bacteriol mewn pobl a gafodd ei gadarnhau mewn labordy yn y Deyrnas Unedig rhwng 2000 a 2016. Dim ond yn y lleiafrif o achosion y mae pobl yn rhoi gwybod am salwch ac y caiff samplau eu hanfon i'w dadansoddi mewn labordy.

Campylobacter**Escherichia coli 0157**

Salmonela**Listeria monocytogenes**

Ffynhonnell: Public Health England, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Health Protection Scotland a Public Health Agency for Northern Ireland.

Lleihau'r achosion o Campylobacter

Mae gan yr ASB raglen waith dros sawl blwyddyn sy'n hyrwyddo newid yn y diwydiant a'r defnyddwyr er mwyn lleihau Campylobacter. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal arolwg microbiolegol o halogiad Campylobacter ar gyw iâr cyfan ffres sy'n cael ei gynhyrchu a'i werthu yn y Deyrnas Unedig. O ganlyniad i'r arolwg manwerthu, mae nifer o fanwerthwyr nawr yn gweithredu ymhellach ac yn datgan eu bwriad yn gyhoeddus.

Llwyddiant diwydiant y Deyrnas Unedig wrth gyrraedd targed lladd-dai


Mae'r canlyniadau diweddaraf ar gyfer lladd-dai yn dangos gwelliant o un flwyddyn i'r llall. Mae canlyniadau o ail flwyddyn yr arolwg yn dangos lefelau sy'n gyson is na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y gwelliannau hyn yn cael eu gorliwio i raddau, o achos y cynnydd mewn torri croen gyddfau ier. Ni lwyddodd y diwydiant cyfan i gyflawni'r targed o <10% ar gyfer Rhagfyr 2016, er y llwyddodd rhai proseswyr unigol. Mae cynlluniau'n parhau i dargedu dull seiliedig ar risg, i sicrhau bod yr enillion sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn yn parhau, ac annog gwelliannau pellach o bosibl.

"Amcangyfrifir bod 100,000 yn llai o bobl yn sâl o achos Campylobacter yn 2016"

Arolwg manwerthu: samplau o groen cyw iâr


Caiff lefel Campylobacter ar groen cyw iâr ei fesur yn ôl nifer yr unedau ffurfio cytref fesul gram (cfu/g). Mae'r prif ffocws ar y lefelau uchel o Campylobacter – sef y rheiny dros 1,000cfu/g.

Cynhaliodd yr ASB yr arolwg cyntaf o fis Chwefror 2014 hyd at fis Chwefror 2015, yr ail arolwg o fis Gorffennaf 2015 hyd at fis Chwefror 2016, a dechreuodd y trydydd ym mis Awst 2016. Mae'r siart isod yn cymharu canlyniadau'r cyfnod rhwng mis Awst a mis Rhagfyr dros y tri arolwg hyn.

% y samplau croen cyw iâr sydd â lefel uwch na 1,000cfu/g o Campylobacter

Achosion o Campylobacter a gadarnhawyd

Yn y 12 mis y mae gennym ddata ar eu cyfer (mis Ionawr 2016 hyd at fis Rhagfyr 2016) roedd gostyngiad yn nifer yr achosion o Campylobacter a gadarnhawyd mewn labordai yn y Deyrnas Unedig gan 12,323 (17.3%) o'r llinell sylfaen (2009 hyd at 2013) o 71,261 o achosion a gadarnhawyd i 58,938. Amcangyfrifir bod hyn gyfwerth ag oddeutu 115,000 o achosion.




Cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau cig â'r rheoliadau


Cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd yw cydymffurfio â'r rheoliadau. Yn ogystal ag arolygiadau a rheolaethau swyddogol arferol, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau i edrych ar gydymffurfiaeth ac yn gweithio â'r busnesau bwyd er mwyn nodi lle mae angen gwella. Lle mae archwiliad yn canfod nad yw gweithredwr yn cydymffurfio â rheoliadau, mae'n rhaid gwella ar frys.

Ym mis Mawrth 2017, nodwyd bod 97.2% o 14,833 o fusnesau cig yn foddhaol neu'n uwch o ran cydymffurfiaeth.


Lloegr



Cymru



Gogledd Iwerddon



Mae'r ASB wrthi'n dadansoddi er mwyn gwella dealltwriaeth o nodweddion y gweithredwyr busnesau bwyd sydd o hyd yn dod o dan gwmpas y categorïau 'angen gwella' neu 'angen gwella ar frys'. Bydd y dadansoddiad hwn yn llywio gwaith i wella perfformiad gweithredwyr busnesau bwyd yn y dyfodol.



Llwyddodd yr ASB i gyflawni'r pethau hyn wrth gefnogi **Mae Bwyd yn Ddiogel**:

Ymgyrch Campylobacter

- Methodoleg dadansoddi newydd ar gyfer samplu ar y pwynt manwerthu.
- Cyhoeddwyd gwaith ar lefelau derbyniolrwydd defnyddwyr i gyd-fynd ag ail-lansio'r arolwg manwerthu ar ôl adolygiad llwyddiannus a phrofi protocol amgen.
- Canlyniadau'r ail arolwg manwerthu⁴.
- Cyhoeddi perfformiad yr ASB ar gyflawni'r ymgyrch Campylobacter⁵.
- Dechrau cyhoeddi data'r diwydiant i safon data a ddiffinnir gan yr ASB.
- Lansio dull wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar risg ar gyfer monitro ac annog lefel isel o Campylobacter mewn lladd-dai.

Buddiannau pobl sy'n agored i niwed

- Gweithdy ar y cyd rhwng yr ASB a Phwyllgor Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol.
- Archwiliodd yr ASB ddull agored o wneud polisiâu ar gyfer y gwaith ar fuddiannau pobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â bwyd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â Labordy Polisi Swyddfa'r Cabinet er mwyn manteisio ar dechnegau arloesol a newydd, a dulliau i ddatblygu dull yr ASB o ran gweithgarwch polisi.
- Roedd y gwaith yn edrych ar sut i ymgysylltu, dylanwadu a chydweithio ar draws ystod ehangach o randdeiliaid, a sut i fanteisio ar wybodaeth a safbwyntiau o sefydliadau na fyddai'r ASB yn cyfathrebu â nhw fel arfer, i gael safbwyntiau newydd i fynd i'r afael â heriau bwyd.

Prosiect galw cynhyrchion yn ôl

- Nid oedd unrhyw fesurau metrig ar gael mewn perthynas ag effeithiolrwydd presennol y prosesau olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl, felly dechreuodd yr ASB ymchwilio i fesur llinell sylfaen o'r system gyfredol, a phennu perfformiad y system a safbwyntiau rhanddeiliaid. Bydd y llinell sylfaen yn helpu i nodi cryfderau a gwendidau'r system.
- Cyflawnwyd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ym mis Medi 2016⁶.
- Dechrau a chwblhau gwaith pellach o gasglu tystiolaeth, gan gynnwys cyflawni cynllun gweithredu lefel uchel. Roedd y cynllun gweithredu lefel uchel yn rhoi llwybr clir i'r ASB bennu pa

4 <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2017/16053/nifer-achosion-campylobacter-wedi-gostwng>

5 <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2017/16053/nifer-achosion-campylobacter-wedi-gostwng>

6 <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/diwydiant/digwyddiadau-bwyd/adalw-cynhyrchion>

gamau yr oedd gofyn eu cymryd, os o gwbl, i wella'r system gyfredol. Cam cyntaf y prosiect oedd ymchwilio i'r system gyfredol i bennu ei gryfderau a'i wendidau. Bydd hyn yn arwain at adroddiad ar y system gyfredol ac argymhellion i wella'r system.

- Fe gomisiynon ni ymchwil i ddadansoddi digwyddiadau ac adolygu dulliau gwledydd eraill.
- Fe gomisiynon ni ymchwil i ddadansoddi'r rheiny sy'n adrodd am ddiwyddiadau, a hyd y cyfnod rhwng cael gwybod am ddiwyddiad a dechrau galw cynnyrch yn ôl.
- Cafodd cynllun gweithredu ymyriadau ei ddatblygu a'i weithredu, a dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu'r ffrwd waith.
- Datblygwyd sail dystiolaeth drwy ddadansoddi ymchwil mewnol ac allanol, a dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun gweithredu ymyriadau. Bydd yr ymchwil yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2017.

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ym mis Mehefin 2016, pleidleisiodd y Deyrnas Unedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fe all y penderfyniad hwn arwain at oblygiadau sylweddol iawn i system fwyd y Deyrnas Unedig a'r ffordd y caiff ei rheoleiddio. Mae'r ASB yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni ein mandad gan y Senedd o 'ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd'. Gan fod cymaint o'r rheoliadau sy'n ymwneud â bwyd yn seiliedig ar gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, mae'r ASB yn un o'r adrannau sydd â'r gyfran uchaf o ddeddfwriaeth yn tarddu o'r Undeb Ewropeaidd. Yn 2016, fe ddechreuon ni gynllunio sut y byddwn yn cyflawni hyn yn 2017/18.

Penderfynodd yr ASB reoli'r gwaith i baratoi ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel rhaglen o newid. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu modelau lefel uchel ar gyfer cyflawni canlyniadau strategol yr ASB ar gyfer defnyddwyr y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd mewn system fwyd sydd wedi'i globaleiddio'n helaeth.

Mae gwaith ymgysylltu helaeth â busnesau wedi amlygu'r cyfleoedd a'r peryglon, ac mae'r ASB wedi ymgorffori'r rhain yn ei ffordd o feddwl. Rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd bord gron â busnesau o bob maint ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a chyfarfodydd dwyochrog â chynrychiolwyr o'r sectorau a fydd yn teimlo'r effaith fwyaf.

Rydym hefyd wedi cynnal ymchwil defnyddwyr i nodi sut mae safbwyntiau wedi newid ers y refferendwm, i sicrhau ein bod ni ac eraill yn y llywodraeth yn gweithio â'r wybodaeth fwyaf gyfredol am fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Rydym wedi cynnal trafodaethau manwl â'n partneriaid cyflenwi yn yr awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd, ar sut y byddwn yn parhau i gydweithio i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio yn y cyfnod cyn, ac ar ôl, ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wrthi'n cael eu casglu ynghyd i lywio Rhaglen Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yr ASB, sydd wedi'i hymgorffori yn ein portffolio newid.

AMCAN CYFFREDINOL

Gweithio â'r diwydiant ac awdurdodau eraill er mwyn nodi meysydd risg mewn perthynas â dilysrwydd a throsteddau bwyd, a chytuno ar gamau gweithredu er mwyn cyfyngu arnynt ar ran cwsmeriaid

MAE BWYD
YN CYD-FYND
Â'R HYN SYDD
AR Y LABEL

Prif fentrau yn y maes hwn:

TRECHU TWYLL BWYD: CAMAU NESAF YR UNED Genedlaethol TROSEDDAU BWYD

Amcan cyffredinol:

Diogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd drwy ymyrryd ac atal gweithgarwch troseddol.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

- Sicrhau staff ac adnoddau i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i sicrhau gallu gweithredol llawn.
- Gorffen cyflwyno'r broses reoli gwybodaeth (*intelligence*) pobl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.
- Cyhoeddi canllawiau i'r diwydiant ar weithio mewn partneriaeth â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.
- Cysylltu galluoedd datganoledig troseddau bwyd â mecanweithiau a phrosesau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn llawn.
- Adolygu cynnydd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'i anghenion tebygol yn y dyfodol.
- Cynhyrchu cynllun cyflwyno ar gyfer argymhellion adolygiad yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

Crynodeb o'r cynnydd:

Yn 2016, cyrhaeddodd yr Uned ei chapasiti staffio llawn, gyda'r holl brosesau angenrheidiol ar waith er mwyn gallu cyflawni ei rôl gyfredol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth (*intelligence*). Lanswyd cyfleuster Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol yr Uned, sy'n caniatáu i bobl roi gwybod am droseddau bwyd yn gyfrinachol, a chyhoeddwyd canllawiau i'r diwydiant ar weithio mewn partneriaeth â'r Uned.

Yn ystod yr hydref, cynhaliodd yr Asiantaeth adolygiad o'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, dan oruchwyliaeth panel annibynnol o arbenigwyr. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r Uned, os yw'n sicrhau'r arian sydd ei angen, fod â'r gallu estynedig i gynnal ymchwiliadau troseddol.

Rhwng 1 Gorffennaf 2016 a 31 Mawrth 2017, llwyddodd yr Uned i ddatblygu a dosbarthu dros 500 darn o wybodaeth droseddol yr oedd modd gweithredu arnynt i lywodraeth leol a phartneriaid gorfodi cyfraith.

Mae'r Uned yn arwain yr ymateb gorfodi yn erbyn y rheiny sy'n gwerthu'r cemegyn tocsig 2,4 dinitrophenol (DNP) yn anghyfreithlon fel atchwanegiad colli pwysau. Arweiniodd gweithgarwch gweithredol a rhagweithiol yr Uned yn 2016 at atafael swm sylweddol o DNP, a chyfrannodd at ostyngiad sylweddol yn yr achosion o docsidedd a gadarnhawyd. Roedd gostyngiad yn nifer y marwolaethau yn y Deyrnas Unedig o achos y sylwedd o chwech yn 2015 i un 2016. Arweiniodd gwybodaeth (*intelligence*) a ddatblygwyd gan yr Uned at ddedfryd troseddol cyntaf y Deyrnas Unedig am werthu DNP. Bydd yr ail dreial yn digwydd dros haf 2017.

CADW GWYLIADWRIAETH

Amcan cyffredinol:

Dylunio a pheilotu dull newydd o gadw gwyliadwriaeth.

Amcanion ar gyfer 2016/17

Rhoi dull newydd o gadw gwyliadwriaeth ar waith yn llawn yn 2017/18, yn seiliedig ar ddyluniad rhesymol lle'r ydym ni'n nodi'r cwestiwn yr ydym ni am i'n dadansoddiad o beryglon yn y gadwyn fwyd ei ateb, pennu faint o ddata a fyddai'n ein caniatáu i lunio casgliadau gyda lefel briodol o sicrwydd, canfod data perthnasol sydd gan eraill, a dim ond comisiynu gwaith samplu a dadansoddi data lle nad oes digon o ddata ar gael.

Crynodeb o'r cynnydd:

Ail-lansiwyd y rhaglen cadw gwyliadwriaeth strategol drwy orchymyn newydd i ddatblygu dull strategol newydd ar gyfer cadw gwyliadwriaeth ar fwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn bodloni diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o gasglu, cydosod, dadansoddi a/neu ddechongli data yn systematig a pharhaus, a dilyn hyn drwy ddsbarthu gwybodaeth fel bod modd targedu camau. Mae'r rhaglen newydd yn adeiladu ar ganlyniadau gweithdy a gynhaliwyd ddechrau 2017, lle cynigiwyd model sganio/canfod/culhau newydd ar gyfer cadw gwyliadwriaeth strategol. Mae pedair ffrwd waith wedi'u datblygu i beilotu a datblygu'r dull cadw gwyliadwriaeth strategol newydd.



PERFFORMIAD


Cyfrifoldeb y bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yw sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac mae gan yr ASB swyddogaeth arwain allweddol wrth sicrhau bod cyflenwyr yn cyflawni'r dull strategol newydd hwnnw ar gyfer cadw gwyliadwriaeth o fwyd a bwyd anifeiliaid, sy'n bodloni diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o'r cyfrifoldeb.

Mae gan ddefnyddwyr yr hawl i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu bwyd, ac nid oes modd gwneud hynny oni bai fod y bwyd wedi'i ddisgrifio'n gywir, a'i fod wedi'i labelu'n briodol.


Mae'n ofynnol bod gweithredwyr busnesau bwyd, dan Erthygl 10 Rheoliad Ewropeaidd Rhif 178/2002, yn rhoi gwybod i'r awdurdodau cymwys os oes ganddynt reswm i gredu nad yw bwyd y maent wedi'i fewnforio, ei gynhyrchu, ei weithgynhyrchu neu ei ddsbarthu yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd. Yn achos y Deyrnas Unedig, yr awdurdodau cymwys yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r awdurdodau bwyd (awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd). Caiff gwybodaeth diogelwch bwyd ei chyfathrebu rhwng y Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau drwy ddefnyddio'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF).

Caiff 'digwyddiad' (*incident*) ei ddiffinio gan yr ASB fel: 'unrhyw ddigwyddiad, lle, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, mae pryderon am fygythiad go iawn neu a ddrwgdybir i ddiogelwch neu ansawdd y bwyd a bwyd anifeiliaid a all fod gofyn ymyrryd er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr'. Isod, gallwch weld nifer y digwyddiadau bwyd a hysbyswyd amdanynt yn y tair blynedd ddiwethaf.

Hysbysiadau a dderbyniwyd



Rhybuddion a wnaed



Data heb ei wirio hyd nes caiff Adroddiad Ystadegol Swyddogol yr ASB ei gyhoeddi.

Mae 'Digwyddiadau a Gwydnwch: Adroddiad Blynyddol 2015/16' ar gael drwy'r ddolen isod⁷.

Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Cyrhaeddodd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ei gapasiti staffio llawn o ugain aelod ym mis Gorffennaf 2016, gyda'r holl brosesau gofynnol ar waith i gyflawni ei rôl gyfredol o gasglu a dadansoddi data.

Lansiodd yr Uned adnodd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol⁸ ym mis Mehefin 2016 y rhan olaf o'r broses o gyflwyno ei gallu rheoli gwybodaeth (*intelligence*) gan bobl. Recriwtiodd yr Uned staff profiadol wedi'u hyfforddi'n briodol, a rhoddwyd protocolau diogelwch gweithredol perthnasol ar waith. Mae gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd nawr yr adnoddau i brosesu adroddiadau gan chwythwyr chwiban a tharddiadau gwybodaeth sensitif eraill ar drosedd bwyd i'r safonau gorfodi cyfraith uchaf.

Cyhoeddodd yr ASB ganllawiau i'r diwydiant⁹ ym mis Mehefin i egluro disgwyliadau'r Uned a gweithrediadau'r diwydiant bwyd mewn perthynas ag adrodd am amheuron troseddau bwyd. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir bod yr Uned yn croesawu'r rheiny sy'n gweithio yn ac o amgylch y diwydiant bwyd i gysylltu â hi, ac mae'n nodi'n bendant y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin â sensitifrwydd, gan gydnabod yn llawn buddiannau masnachol y ffynhonnell.

O fewn yr ASB, mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn arwain yn strategol ar wybodaeth (*intelligence*) troseddau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r Uned yn gosod

⁷ www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa160706.pdf

⁸ <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2016/15233/food-crime-confidential-launch>

⁹ <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2016/15648/nfcu-launches-industry-guide>

blaenoriaethau casglu gwybodaeth strategol y tair gwlad, ac yn rhoi cymorth dadansoddi a gwybodaeth (*intelligence*) lle bo angen. Yng Nghymru, caiff gweithrediadau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd hefyd eu cefnogi gan Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru.

Daeth yr adolygiad annibynnol o gyfnod cyntaf yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i ben, a chyflwynwyd ei argymhellion i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad gan staff yr ASB y tu allan i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, a'i oruchwylio gan banel annibynnol o'r sector cyhoeddus a phreifat. Argymhellodd yr arolygiad y dylid rhoi mandad ymchwilio i'r Uned ar gyfer troseddau bwyd, a'r pwerau, y gallu a'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau newydd hynny. Argymhellir hefyd y dylai'r Uned fod yn annibynnol yn weithredol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd gweithrediadau Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

Cytunodd Bwrdd yr ASB ag argymhellion yr arolygiad. Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd, mae'r ASB yn ceisio cefnogaeth ehangach ar gyfer ei lwybr arfaethedig gan randdeiliaid Gweinidogol. Bydd gweithrediadau Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

CYFLAWNI

Cyflawnodd yr ASB y canlyniadau canlynol i gefnogi **Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label:**

Troseddau bwyd

- Lansio adnodd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol.
- Cyhoeddwyd canllawiau i'r diwydiant ar weithio â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.
- Cwblhawyd adolygiad o gynnydd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, ynghyd ag asesiad o'r anghenion tebygol yn y dyfodol.¹⁰
- Cwblhawyd yr Asesiad Strategol Blynyddol o Droseddau Bwyd 2017.

Cadw gwyliadwriaeth

- Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Cadw Gwyliadwriaeth ym mis Tachwedd 2016¹¹, a gyflawnodd y nod o feithrin dealltwriaeth gyffredin o gadw gwyliadwriaeth, gan symud y modd o feddwl oddi wrth samplu a dadansoddi i annog meddwl yn greadigol. Rhannwyd gweledigaeth yr ASB o ddull agored ac ar y cyd, a sut y gall pawb elwa o hyn wrth geisio argyhoeddi grwpiau rhanddeiliaid.
- Comisiynwyd cwmni ymgynghori i gyflawni adolygiad o'r gweithdrefnau cadw gwyliadwriaeth presennol. Ymgysylltodd ag uwch swyddogion gweithredol yr ASB i ddeall yr achos dros newid, amlygu sut y dylid mynd i'r afael â'i gyflawni, a chadarnhau cynlluniau peilot posibl ar gyfer y dyfodol.
- Cytunwyd ar y mandad prosiect yn Chwarter 4.
- Cynhaliodd y Tîm Cadw Gwyliadwriaeth weithdai, gan wahodd cydweithwyr o dîm Rheoleiddio Ein Dyfodol, y tîm mewnforion/allforion a dadansoddi i ddechrau dylunio gwahanol becynnau gwaith i gyflawni'r gwahanol ffrydiau gwaith.

¹⁰ www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa161106.pdf

¹¹ www.food.gov.uk/news-updates/news/2016/15753/food-surveillance-summit-get-involved

AMCAN CYFFREDINOL

Defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â heriau heddiw, ac er mwyn nodi a chyfrannu at fynd i'r afael â pheryglon sy'n sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyfodol.

CASGLU A
DEFNYDDIO
GWYDDONIAETH,
TYSTIOLAETH
A GWYBODAETH

Prif fentrau yn y maes hwn:

RHAGLEN WYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A GWYBODAETH

Amcan cyffredinol:

Sicrhau bod yr ASB yn defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a mesurau dadansoddi yn effeithiol, drwy gysylltu ac integreiddio ar draws yr ASB, er mwyn ategu a chefnogi'r gwaith o weithredu, cyflawni a gwerthuso Strategaeth yr ASB ar gyfer 2020, er mwyn darparu buddiannau i ddefnyddwyr; ac er mwyn sicrhau ein bod yn edrych ymhellach, yn llywio strategaeth yr ASB a datblygu gallu'r ASB i gyflenwi y tu hwnt i 2020.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

- Caiff gwaith gwyddonol a'i werth ei weld a'i ddeall gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r sefydliad ehangach.
- Blaenoriaethu'r wyddoniaeth y mae'r ASB yn ei chomisiynu'n effeithiol yn unol â dull corfforaethol ehangach.
- Deall y gallu proffesiynol sydd ei angen i gyflawni amcanion yr ASB a recriwtio neu ddatblygu'r gallu hwn i wneud cynnydd sylweddol ar ganlyniadau penodol y rhaglen:
 - caiff gwaith gwyddonol ei integreiddio ar draws y sefydliad ac mae'n cyfrannu at yr amcanion tactegol a strategol drwyddo draw
 - mae gan wyddoniaeth a gomisiynir effaith fesuradwy, mae'n gwireddu buddion ac mae'n dangos canlyniadau ar ôl buddsoddi
 - Bydd yr ASB yn manteisio i'r eithaf ar wyddoniaeth o du allan i'r sefydliad cyn comisiynu gwyddoniaeth fewnol

Crynodeb o'r cynnydd:

Sefydlwyd y Rhaglen Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yr ASB. Ei phrif nod oedd datblygu'r amgylchedd cywir er mwyn gwneud yn siŵr bod ein gwaith wedi'i alinio'n strategol, ei flaenoriaethu, ei gynnal yn effeithiol, yn cael yr effaith orau bosibl ac yn sicrhau gwerth am arian. Fel rhan o'r rhaglen, cafodd set o ddangosyddion a mesurau perfformiad eu gweithredu i dracio cynnydd wrth gyflawni'r amcanion hyn.

Adroddiad Prif Gyngorydd Gwyddonol yr ASB¹²

Yn ei chweched Adroddiad, archwiliodd Prif Gyngorydd Gwyddonol yr ASB, yr Athro Guy Poppy, gwyddor data a chyfraniad y gwaith a gynhaliwyd yn 2016/17 at helpu'r Asiantaeth i gyflawni ei hamcan o fod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata.

Dangosodd yr adroddiad sut roedd yr Asiantaeth yn dod ag ystod eang o ddata ynghyd, o 'ecosystem' gymhleth y diwydiant bwyd, hyd at y cyfryngau cymdeithasu a dewisiadau defnyddwyr, er mwyn archwilio ffyrdd y gallai gyflawni ei chyfrifoldebau rheoleiddio o hyn ymlaen, a chael ei llywio gan ddata. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar ymchwil â Sefydliad Data Mawr Coleg Prifysgol Llundain, Swyddfa Ystadegau Gwladol ac eraill, er mwyn cael y gwerth gorau o'r data, ynghyd â chefnogi amcanion yr ASB a dysgu gydag a chan eraill. Ystyriwyd gwyddor data wrth gyflwyno'r Strategaeth Cadw Gwylidwraeth newydd a'r rhaglen 'Rheoleiddio Ein Dyfodol'.

BWYD: EIN DYFODOL

Amcan cyffredinol:

Arwain sgwrs ar yr heriau a fydd yn wynebu'r systemau bwyd sy'n cyflenwi defnyddwyr y Deyrnas Unedig, a datblygu dealltwriaeth o beth mae defnyddwyr yn ei weld fel y 'dyfodol bwyd gorau'.

Crynodeb o'r cynnydd:

Bu i ni gomisiynu ymchwil i ganfod beth oedd defnyddwyr eisiau ei wybod am fwyd, a chanfod mai un o'r newidiadau y mae pobl yn ei groesawu yw'r cynnydd yn yr wybodaeth a'r addysg sydd ar gael am y bwyd rydym ni'n ei fwyta. Arweiniodd hyn at gynnal gweithgarwch codi ymwybyddiaeth am wastraff bwyd yn ystod yr Wythnos Diogelwch Bwyd, ymgyrch y 'Rhew-gyfaill' dros y Nadolig, a chomisiynu ymchwil ar flaenoriaethau defnyddwyr mewn system fwyd dryloyw.



PERFFORMIAD

Gwastraff bwyd

Yn 2016, canolbwyntiodd yr ASB ar godi ymwybyddiaeth o wastraff bwyd yn ystod ei Hwythnos Diogelwch Bwyd flynyddol, ynghyd â'r effaith, y peryglon, a sut i'w leihau. Roedd yr ASB eisiau newid ymddygiadau o ran gwastraff bwyd yn y cartref, yn enwedig gyda'r rheiny a oedd yn rhoi gwybod am arferion peryglus mewn perthynas â dyddiadau 'defnyddio erbyn' a bwyd dros ben. Mae hyn yn cynnwys bwyta bwyd heibio ei ddyddiad 'defnyddio erbyn', a chadw bwyd dros ben am yn hirach nag y dylid er mwyn arbed arian.



Cyrhaeddodd y gweithgarwch hwn dros 57 miliwn o bobl. Llwyddodd yr ymgyrch i gyflawni cynnydd ystadegol sylweddol mewn saith o'r deg dangosydd perfformiad allweddol. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o 59%-63% yn nodi 'Bydda i'n defnyddio fy rhewgell yn amlach i osgoi gwastraff bwyd', a chynnydd o 57%-65% o nodi 'Mae bwyta bwyd erbyn y dyddiad defnyddio erbyn yn helpu i osgoi gwenwyn bwyd'.

Mae'r canlynol yn dangos blaenoriaethau'r cyhoedd mewn perthynas â pha newidiadau sydd eu hangen i sicrhau dyfodol cynhyrchu bwyd.

¹² <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2017/16132/adroddiad-gwyddonol-gwyddor-data>

Mwy o **dechnoleg** mewn cynhyrchiant bwyd **50%**
 Gwneud **newidiadau** yn yr hyn rydym yn ei fwyta **50%**
 Bwyta llai o **gig** **37%**

Cynaliadwyedd bwyd a dyfodol bwyd



Mae angen i newidiadau sicrhau bod digon o fwyd i fwydo poblogaeth y byd

Ffynhonnell: Cylch 4 Arolwg Bwyd: Ein Dyfodol 2016¹³



CYFLAWNI

Cyflawnodd yr ASB y canlyniadau canlynol i gefnogi'r amcan **Casglu a Defnyddio Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth:**

Rhaglen Wyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth

- Diffiniwyd y rhaglen, a lluniwyd prosiect ar y buddiannau, y galluoedd a'r blaenoriaethau.
- Cyflwynwyd blaenoriaeth newydd ar gyfer comisiynu gwyddoniaeth.
- Cafodd y fframwaith fuddiannau newydd ei chymeradwyo ynghyd â'r strategaeth gallu Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth.

Bwyd: Ein Dyfodol

- Datblygwyd cynllun gweithredu i lunio'r camau nesaf mewn ymateb i'r dadansoddiad o'r canlyniadau yn dilyn y digwyddiad 'Bwyd: Ein Dyfodol'.
- Ymgyrch gwastraff bwyd dros y Nadolig ('Y Rhew-gyfaill!').
- Dwy ymgyrch iechyd deietegol yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd gweithgarwch arwyddocaol arall yn cynnwys:

Cadw gwyliaidwriaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn golygu ei bod yn anoddach, neu'n amhosibl, trin amrywiaeth gynyddol o heintiau. Roedd adroddiad¹⁴ gan Brif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB yn archwilio'r wyddoniaeth tu ôl i ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac yn cyflwyno'r canfyddiadau diweddaraf sy'n dangos rôl bwyd yn y broblem hon.

¹³ <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/cyngor/bwyd-a-chi>

¹⁴ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/adroddiadgwyddonolfersiwn4.pdf>

Daeth trafodaeth Bwrdd yr ASB ym mis Medi 2016 i'r casgliad y dylai'r ASB gyflawni gwaith cadw gwylidwriaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016, rhoddwyd diweddariad i aelodau'r Bwrdd am gynnydd y gwaith hwn.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd yr ASB yr adroddiad terfynol o adolygiad systematig er mwyn asesu pwysigrwydd y gadwyn fwyd yng nghyd-destun bacteria ymwrthedd gwrthficrobaidd. Cyfeiriwyd yn benodol at borc, cig dofednod, cynhyrchion llaeth, bwyd môr a chynnyrch ffres i'w werthu yn y Deyrnas Unedig.¹⁵

Roedd yr adolygiad hwn yn sail dystiolaeth gadarn ar gyfer rhaglen gadw gwylidwriaeth ddomestig newydd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd, ynghyd â llywio blaenoriaethau'r ASB a safbwynt y Deyrnas Unedig yn nhrefodaethau Codex. Mae hefyd yn enghraifft dda o ddefnyddio adolygiadau systematig i asesu'r dystiolaeth gyffredinol yn y maes pwysig hwn, beth gall y dystiolaeth gyffredinol ddweud wrthym a pha mor gadarn ydyw, a lle mae'r bylchau pwysig.

Cadarnhaodd yr adolygiad hwn bod diffyg data ar bresenoldeb ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, ac i raddau llai, mewn gwledydd sy'n allforio bwyd i'r Deyrnas Unedig. Argymhellodd yr adolygiad y dylid datblygu rhaglenni cadw gwylidwriaeth a fydd yn nodi tueddiadau mewn bacteria ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwydydd (yn enwedig ar gyfer dofednod a phorc i'w werthu). Gellir defnyddio'r rhain i asesu peryglon posibl mewn perthynas â chysylltiad â pheryglon o'r fath ymhlith defnyddwyr y Deyrnas Unedig.

Yn seiliedig ar y bylchau data a nodwyd yn yr adolygiad systematig o ymwrthedd gwrthficrobaidd, mae'r ASB nawr yn dechrau'r astudiaeth cadw gwylidwriaeth strategol gyntaf ar bathogenau ymwrthedd gwrthficrobaidd a bacteria cydfwytaol mewn cig dofednod a phorc i'r farchnad.

Prif amcanion yr astudiaeth cadw gwylidwriaeth yw helpu i lywio asesiad o risg ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y gadwyn fwyd, a monitro tueddiadau. Yn y tymor hirach, bydd yn ein helpu i dracio cynnydd ag ymyriadau sydd â'r nod o fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd, a bydd yn cyfrannu tuag at yr ymdrech ryngwladol ehangach i leihau'r broblem hon. Bydd yr astudiaeth yn cael ei chynnal ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn cynnwys bwyd gan gynhyrchwyr o du allan y Deyrnas Unedig.

Mae'r ASB yn disgwyl dechrau samplu cynhyrchion yn ystod haf 2017, a chyflwyno adroddiad arolwg ddiwedd 2017. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad terfynol ddechrau 2018.


Ym mis Mawrth 2017, trefnodd yr ASB ddiwyddiad ymwrthedd gwrthficrobaidd i randdeiliaid er mwyn rhoi gwybod i'r diwydiant ac eraill am waith pwysig yr ASB, a'r Llywodraeth ehangach, ar facteria ymwrthedd gwrthficrobaidd a'r gadwyn fwyd. Rhoddwyd diweddariad i randdeiliaid ar waith y Llywodraeth, ar draws nifer o feysydd, i helpu i ddatblygu ein gwybodaeth am y maes hwn. Cyfrannodd y digwyddiad hwn, ynghyd â'r drafodaeth ganlynol ar sut i reoli bacteria ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwyd, at greu cysylltiadau defnyddiol â'n rhanddeiliaid yn y diwydiant.

¹⁵ <https://www.food.gov.uk/science/research/foodborneillness/b14programme/b14projlist/fs102127/a-systematic-review-of-amr-in-pork-and-poultry-dairy-products-seafood-and-fresh-produce>

Dull newydd o gadw gwyliadwriaeth ar fwyd


Fel rhan o ddull newydd yr Asiantaeth o gadw gwyliadwriaeth strategol, cynhaliwyd ein Huwchgynhadledd Cadw Gwyliadwriaeth ar Fwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2016, i hyrwyddo rhagor o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn benodol o amgylch rhannu data a chadw gwyliadwriaeth mewn modd cydweithredol. Bydd y rhaglen cadw gwyliadwriaeth strategol yn sicrhau dull newydd o gadw gwyliadwriaeth fydd yn bodloni diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o gasglu, cyfuno, dadansoddi a/neu ddechongli data yn systematig a pharhaus, a lledaenu gwybodaeth i'r rheiny sydd angen gwybod er mwyn iddynt weithredu. Unwaith y bydd wedi'i gweithredu'n llawn, bydd y rhaglen yn rhoi mewnwelediadau newydd i'r ASB a rhanddeiliaid eraill ar draws y system fwyd. Bydd hyn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn diogelu defnyddwyr. Y prif nod yw bod â system cadw gwyliadwriaeth newydd ar waith erbyn dechrau 2019, a fydd yn sicrhau bod gan yr ASB y gallu sylfaenol i lywio blaenoriaethau'r Asiantaeth. Mae hyn yn golygu dull cadw gwyliadwriaeth sy'n:

- cefnogi'r amcan ehangach bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- ein helpu ni i ddeall peryglon (diogelwch/dilysrwydd/sicrwydd), a nodi bylchau a pheryglon sy'n newid neu nad ydynt yn cael eu rheoli, cyn creu cynllun gweithredu
- gyrru prosesau gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu ar draws yr ASB ac yn ehangach
- dadansoddi'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau'r lefel briodol o hyder/sicrwydd i yrru'r broses o wneud penderfyniadau



- Bydd ein dull newydd yn seiliedig ar ailadrodd y cyfnodau allweddol o sganio, canfod, culhau a gwerthuso. Disgwylir y bydd yr wybodaeth (*intelligence*) a'r data ar gyfer gweithgarwch sganio yn dod o nifer o ffynonellau megis cyfryngau electronig (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasu), tarddiadau data mawr, rhwydweithiau mewnol sy'n bodoli eisoes (e.e. yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban, a thimau mewnforion/allforion yr ASB), rhwydweithiau personol, rhwydweithiau ffurfiol, a chysylltiadau rhyngwladol.


Mae'r model lefel uchel hwn wedi'i ddatblygu ymhellach i'r model gweithredu targed isod:



Alergedd bwyd

Arweiniodd ein hymchwil ar alergedd ac anoddefiad bwyd at gyfres o ganfyddiadau pwysig dros y flwyddyn, a fydd yn llywio ein cyngor i ddefnyddwyr ac i fusnesau, a sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau. Cafodd cefndir y gwaith hwn a'r prif ganfyddiadau eu crybwyll ym mhumed adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol ym mis Tachwedd 2016.¹⁶

Mae'r wyddoniaeth yn y maes hwn yn gymhleth, ond mae camau breision yn ein helpu ni i ddeall pam fod alergedd bwyd yn datblygu, a sut y gellir ei atal. Er enghraifft, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth ddeall dylanwad deiet babanod wrth atal alergedd bwyd. Serch hynny, mae dal ansicrwydd am alergedd ac anoddefiad bwyd, ac mae angen ystyried data newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau bod cyngor i ddefnyddwyr yn adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael.



¹⁶ https://www.food.gov.uk/sites/default/files/pumed-adroddiad-gwyddonol-alergedd_1.pdf

Comisiynodd yr ASB adolygiad systematig o'r sail dystiolaeth, gan ddod â'r sail dystiolaeth ynghyd a'i hasesu, gan gynnwys gwaith a ariannwyd gan yr ASB a chan eraill. Aseswyd hyn gan y Pwyllgor ar Docsidedd, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2016.¹⁷

Mae is-bwyllgor y Pwyllgor ar Docsidedd a'r Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth yn cynhyrchu asesiad risg a buddion ar bryd gellir cyflwyno pysgnau ac wyau i ddeiet plant bach. Mae'r gwaith hwn yn defnyddio canfyddiadau o astudiaethau a ariannwyd gan yr ASB ac o ymchwil arall, a bydd yn sail i'r cyngor a fydd yn cael ei roi ar y cyd i'r Adran Iechyd. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, ac yn ystyried pob agwedd ar faetheg babanod. Bydd canllawiau hyn yn arbennig o bwysig i rieni babanod sy'n agored i beryglon alergeddau bwyd, a'r gweithwyr iechyd sy'n rhan o'u gofal.

Ymchwil ar gostau anuniongyrchol clefydau a gludir gan fwyd i ddefnyddwyr

Diolch i waith ymchwil a gomisiynwyd gan Dîm Dadansoddeg yr ASB, cafwyd amcangyfrifon newydd o'r boen a'r dioddef a achoswyd gan glefydau a gludir gan fwyd mewn perthynas â'r pathogenau hynny sydd fwyaf perthnasol i'r ASB a defnyddwyr o ran difrifoldeb y salwch a chost y clefyd i'r Deyrnas Unedig.

Amcangyfrifwyd y boen a'r dioddef sy'n gysylltiedig â chlefydau a achosir gan y pathogenau hyn gan ddefnyddio dau fesur metrig: Blwyddyn o Fywyd wedi'i Haddasu yn ôl ansawdd (QALY) a Pharodrwydd i Dalu (WTP); mae'r diwethaf yn rhoi gwerth ariannol cyfwerth i'r costau hyn. Mae'r ddau fetrig yn rhoi modd o asesu a chymharu effeithiau ar draws gwahanol bathogenau a mesurau rheoli posibl. Gellir defnyddio'r rhain i wella ein hasesiadau effaith a'n gwerthusiadau economaidd ar gyfer ein blaenoriaethau strategol a'n hopsiynau polisi i leihau'r perygl o glefydau a gludir gan fwyd. Bydd hyn yn ein caniatáu i gymharu opsiynau a blaenoriaethau ar sail fwy cadarn, gan ein helpu i dargedu'r peryglon mwyaf yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

Deall potensial technolegau newydd: Adolygiad 'Y Rhyngrwyd Pethau' a phrosiectau peilot

Mae gan 'Y Rhyngrwyd Pethau' botensial sylweddol i helpu â diogelwch bwyd, ac i raddau llai, diogelu'r cyflenwad bwyd. Rhwydwaith a grëwyd o wrthrychau bob dydd yw 'Y Rhyngrwyd Pethau', sydd â'r gallu i gyfathrebu â dyfeisiau eraill. Y syniad yw y byddai hyn yn creu gwasanaethau blaengar, yn debyg i'r rheiny a ddyluniwyd gan ddefnyddio cyfrifiaduron a ffonau clyfar sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd. Mae dadansoddwyr y diwydiant yn amcangyfrif y gallai nifer y gwrthrychau sydd wedi'u cysylltu â'r we gynyddu o 14 biliwn heddiw i rywle rhwng 20 a 100 biliwn erbyn 2020. Mae'r dechnoleg yn dal i ddatblygu, er bod ychydig o enghreifftiau o'r syniad hwn ar waith.

www.itutility.ac.uk/the-impact-of-the-internet-of-things-on-the-food-supply-network/

¹⁷ www.food.gov.uk/science/research/allergy-research



Cyllidodd yr ASB fenter ymchwil ar y cyd â'r 'IT as a Utility Network+' (ITaaU) i edrych ar sut y gellir rhoi 'Y Rhyngwrwyd Pethau' ar waith yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

Roedd y gwaith yn cynnwys adolygiad o ymchwil wedi'i gyhoeddi am 'Y Rhyngwrwyd Pethau' mewn perthynas â diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd, a ddaeth i'r casgliad y gallai'r effaith fwyaf fod ym maes cludo, logisteg a storio bwyd. Gellir rhoi synwryddion mewn deunydd pecynnu sy'n mesur tymheredd, lleithder a hyd yn oed y cyfansoddiad cemegol o fewn y deunydd pecynnu. Wrth gyfuno'r dull hwn â thag adnabod amledd-radio, gallai olygu bod modd monitro gonestrwydd y bwyd heb ei ddifrodi, drwy declyn darllen tag sydd wedi'i leoli ychydig fetrau o'r pecyn. Gallai'r dechnoleg hon symleiddio'r broses olrhain mewn cadwyni cyflenwi bwyd hynod gymhleth. Mae sawl system o'r fath eisoes ar gael ar y farchnad.

Bu i ni hefyd ariannu cyfres o gynlluniau peilot yn archwilio defnyddio 'Y Rhyngwrwyd Pethau' mewn agweddau gwahanol ar ddiogelwch bwyd. Roedd un prosiect yn edrych ar ddefnyddio teclynnau cofnodi data i fonitro gwir dymheredd brechdanau. Roedd cofnodwyr data yn y siop frechdanau yn anfon data at ap, a oedd yn rhoi gwybod i berchennog y siop am unrhyw newid sylweddol o ran rheoli tymheredd. Defnyddiodd prosiect arall system o synwryddion a oedd wedi eu gosod mewn cegin fasnachol i gofnodi cydymffurfiaeth â phrotocolau diogelwch bwyd. Mae defnyddio systemau fel y rhai a ddatblygwyd yn y prosiectau hyn, ac yn bwysicach fyth, defnyddio'r data y maent yn ei greu, yn arwain at wella diogelwch bwyd drwy brosesau awtomatig ar hyd a lled y gadwyn cyflenwi bwyd.

Mae hyn yn dangos sut mae ein rhaglen dystiolaeth strategol yn archwilio potensial technolegau a data newydd i gefnogi diogelwch bwyd, mesurau rheolau effeithiol a sicrwydd yn system fwyd y dyfodol, a bydd yn ein helpu i dargedu gwaith pellach yn y maes hwn ar raglenni addawol.

Deall ymddygiadau ac agweddau defnyddwyr: Arolwg Bwyd a Chi, Cylch 4

Bwyd a Chi yw arolwg defnyddwyr pwysicaf yr ASB, sy'n darparu data allweddol ar ymddygiadau, agweddau a gwybodaeth defnyddwyr am ddiogelwch bwyd a materion mewn perthynas â bwyd. Mae'n rhoi cipolwg allweddol i ni o ymddygiadau ac agweddau defnyddwyr er mwyn llywio gwaith polisi a rheoliadau effeithiol. Mae'n ystadegyn swyddogol a gaiff ei adlewyrchu yn ei fethodoleg

gadarn. Cyhoeddwyd Cylch 4 yr arolwg ym mis Mawrth¹⁸. Roedd dipyn o newyddion da yng Nghylch 4, lle nododd defnyddwyr nifer o arferion sy'n unol ag argymhellion yr ASB ar ddiogelwch bwyd yn y cartref:

- Dywedodd mwy nag wyth o bob deg atebwr (86%) eu bod yn golchi eu dwylo bob tro cyn dechrau paratoi neu goginio bwyd.
- Nododd tri chwarter yr atebwyr (75%) eu bod yn defnyddio'r dyddiad 'defnyddio erbyn' fel y dangosydd gorau ar gyfer p'un a yw bwyd yn ddiogel i'w fwyta. Mae hyn wedi cynyddu yn sylweddol ers Cylch 1 (62%). Mae'r canfyddiadau hefyd yn helpu i greu darlun o arferion defnyddwyr wrth fwyta allan:
- Dywedodd 72% o atebwyr bod glanweithdra a hylendid y sefydliad yn bwysig iddynt; yn gyffredinol, roedd traean (30%) o atebwyr a oedd yn bwyta allan yn ystyried mai hwn oedd y ffactor pwysicaf.

Hefyd, roedd cwestiynau newydd yng Nghylch 4 yn dangos elfennau pwysig a allai lywio gwaith yr ASB yn y dyfodol:

- Roedd cwestiynau ar alergedd ac anoddefiad bwyd yn dangos, o'r rheiny a oedd wedi nodi adwaith andwyol neu a oedd yn osgoi bwydydd penodol, y bwydydd mwyaf cyffredin a oedd yn achosi adwaith oedd llaeth gwartheg a chynhyrchion llaeth gwartheg (22%), grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten (13%) a molysgiaid, e.e. cregyn gleision, wystrys (11%).

Gan ddefnyddio'r data o Gylchoedd 1-4 Bwyd a Chi, bydd cyfres o bum adroddiad dadansoddi eilaidd yn archwilio canfyddiadau defnyddiol pellach y data hwn o ran polisi, cyngor a rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys deall proffiliau ac arferion pobl sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd, megis nodweddion poblogaeth penodol a'u harferion bwyd; a helpu i dargedu negeseuon ar arferion diogelwch bwyd allweddol mewn perthynas ag oeri, glanweithdra, coginio a chroeshalugi yn y Deyrnas Unedig.

Deall pa mor gymhleth yw'r system fwyd

Mae system fwyd y Deyrnas Unedig yn rhan o system ehangach sy'n mynd yn fwyfwy byd-eang. Ariannodd yr ASB a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol cyfres o bum prosiect ar y cyd, i'n helpu ni i ddeall yr heriau y mae hyn yn ei gyflwyno i system fwyd-amaeth y Deyrnas Unedig, diogelwch bwyd, trosedd/twyll bwyd a hyder defnyddwyr. Roedd y gwaith yn rhan o raglen ar draws asiantaethau i Ddiogelu'r Cyflenwad Bwyd yn Fyd-eang. Aeth y prosiectau ati i archwilio'r effeithiau ar ddiogelwch a hyder gwahanol ddulliau o ddarparu bwyd, rheoli a a threfnu'r gadwyn gyflenwi, a sut gall y canfyddiadau hyn arwain at ymyriadau polisi a dylanwadu ar ymddygiadau'r defnyddiwr, y rheoleiddiwr a'r diwydiant.¹⁹

Roedd tri phrosiect yn canolbwyntio ar dwyll yn y gadwyn fwyd, ac roedd yr amcanion yn cynnwys:

- Ymchwilio i wendidau cyfredol ac yn y dyfodol o ran twyll a throedd yn y cadwyni cyflenwi bwyd i nodi cyfleoedd i droseddu a gwerthuso mesurau atal sy'n cynyddu hyder defnyddwyr mewn bwyd.

¹⁸ <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/cyngor/bwyd-a-chi>

¹⁹ www.food.gov.uk/science/research-reports/ssresearch/understanding-the-challenges-of-the-food-system

- Datblygu model cyfrifiannu rhagfynegol (*predictive computational*) sy'n amlinellu nodau mewn rhwydwaith cyflenwi bwyd sy'n agored i droseddau difwyno.
- Cynhyrchu deunydd empirig manwl newydd, gan ddefnyddio dulliau ansoddol ar sut mae gweithredwyr yn y system fwyd yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i ragweld ac osgoi problemau yn y dyfodol.

Mae'r ddau arall yn canolbwyntio ar ganfyddiad pobl o system fwyd y Deyrnas Unedig, yn benodol:

- canfyddiad pobl hŷn o gryfderau a gwendidau system fwyd y Deyrnas Unedig.
- canfyddiadau empirig ar ganfyddiadau'r cyhoedd am gadwyni system bwyd y Deyrnas Unedig, beth yw pryderon pobl, a sut gellir eu rheoli orau yn y dyfodol.

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys mewnwelediadau defnyddiol o ran y modd y gall busnesau, fel rhan o'r system ehangach, ymateb i beryglon, a sut mae hyn yn gysylltiedig â dulliau gwydnwch a chydymffurfio, a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer ein gwaith ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol. Roedd y canfyddiadau hefyd yn atgyfnerthu'r gwerth a'r angen i gyfuno ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth eraill, ac i rannu data, er mwyn dadansoddi a deall peryglon, troseddau ac ymddygiadau mewn perthynas â bwyd yn fwy effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein dull newydd o gadw gwylidwriaeth.

AMCAN CYFFREDINOL

Cefnogi defnyddwyr a rhoi'r grym iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei fwyta, gan ddylanwadu ar y system fwyd yn ogystal â'u lles eu hunain a lles eu teuluoedd a'u cymunedau

RHOI'R GRYM I
DDEFNYDDWYR

Prif fentrau yn y maes hwn:

CYFLWYNO EIN STRATEGAETH GYFATHREBU

Amcan cyffredinol:

Cyfathrebu'n fwy effeithiol, fel bod yr ASB yn 'wirioneddol agored ac yn annog sgysrsiau, sy'n rhoi grym i ddefnyddwyr yn ein gwaith llunio polisi a gweithredu, ac yn ein perthynas â'r diwydiant bwyd', ac ymateb i fyd sy'n newid, sianeli newydd, lleisiau newydd a disgwyliadau newydd.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

Diffinio a chytuno ar y strategaeth, y sgiliau a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen, a rhoi newid ar waith.

Crynodeb o'r cynnydd:

Cyrhaeddodd sgôr enw da yr ASB ei lefel uchaf erioed ddiwedd 2016/17, sy'n dangos cynnydd arbennig o ran rhoi'r grym i ddefnyddwyr. Daeth yr ASB yn safle 11 o 60 o adrannau'r llywodraeth am enw da, a'r ASB oedd y rheoleiddiwr gorau. Mae hyn yn dangos gwelliant sylweddol, ac mae'r ASB wedi aros ymhell uwchben cyfartaledd y sector cyhoeddus mewn perthynas â hyder y cyhoedd.




PERFFORMIAD


Caiff enw da yr ASB ei bennu'n bennaf ar ganfyddiadau am Ddinasyddiaeth (19.9%), Cynhyrchion/Gwasanaethau (15.2%) ac Arweinyddiaeth (14.6%). Mae hyn yn dangos bod y cyhoedd gwybodus yn poeni fwyaf am sut all yr ASB ddylanwadu'n gadarnhaol ar gymdeithas (Dinasyddiaeth), yn cynnig gwasanaeth dibynadwy ac effeithlon (Cynhyrchion/Gwasanaethau), a'i fod yn sefydliad a gaiff ei arwain yn dda ac sydd ag amcanion clir (Arweinyddiaeth). Mae'r ffigurau hyn yn cefnogi'r safbwynt bod gan y cyhoedd gwybodus hyder yn yr ASB ar hyn o bryd i gyflawni ei rôl mewn modd cyfrifol, a nawr maent yn dymuno gweld sut y bydd yr ASB yn defnyddio ei chyfrifoldebau er lles y gymdeithas.

Fodd bynnag, mae 37% - 63% yn dal yn niwtral neu'n ansicr am eu canfyddiad o'r ASB ar draws y dimensiynau, sy'n rhoi cyfle i'r ASB gryfhau ei henw da ymhellach. Mae'r graffiau isod yn dangos ffigurau ymwybyddiaeth a hyder o 2010 – 2016.

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd o'r ASB



Ymddiried yn yr ASB



Mae Cylch diweddaraf traciwr agwedd y cyhoedd a gynhelir bob chwe mis wedi amlygu bod ymwybyddiaeth o'r ASB ar ei uchaf yng Nghymru (85%), yna yng Ngogledd Iwerddon (79%), ac ar ei isaf yn Lloegr (76%). Fodd bynnag, o'r 76% o bobl a oedd yn ymwybodol o bwy ydyn ni, roedd hyder yn yr ASB ar ei uchaf yng Ngogledd Iwerddon (85%), yna yn Lloegr (65%), ac ar ei isaf yng Nghymru (58%).


Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Caiff y CSHB ei weithredu mewn partneriaeth â holl awdurdodau lleol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n cynnal arolygiadau y mae'r sgoriau'n seiliedig arnynt. Mae'r sgoriau yn amrywio o 5 ('Da iawn') i 0 ('Angen gwella ar frys').


Ar 31 Mawrth 2017, roedd sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer 427,669 o sefydliadau bwyd ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Am y tro cyntaf, roedd dros 99% o fusnesau oedd â sgôr yng Ngogledd Iwerddon wedi cael sgôr o 3 neu uwch; yng Nghymru roedd gan 95% sgôr o 3 neu uwch, a 94% yn Lloegr. Mae cynnydd yn nifer y busnesau sydd â sgôr o 5 wedi parhau yng Ngogledd Iwerddon ers i Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2016 ddod i rym. Mae'r cynnydd o fusnesau sydd â sgôr o 5 yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu'n gyson yn unol â'r cynnydd a welwyd mewn chwarteri blaenorol drwy 2016/17.

Mae'r graffiau isod yn dangos y sgoriau wedi'u dosbarthu yn ôl % ac yn ôl gwlad:


Lloegr




Cymru




Gogledd Iwerddon




Canran sgoriau o '3' neu uwch




Canran sgoriau '5'



Canran sgoriau ym mhob gwlad




Canran dosbarthiad sgoriau




Ynghyd â bod yn gynllun llwyddiannus o ran sgoriau busnesau, mae data ymwybyddiaeth defnyddwyr yn dangos bod sticer y Cynllun, fel mesur o safonau hylendid da i ddefnyddwyr, wedi cynyddu o 12% i 40% ers mis Tachwedd 2010. Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr nawr yn fwy ymwybodol o fusnesau sy'n ddiogel ac yn hylan.

Sail: Ymwybyddiaeth atebwyr o safonau hylendid wrth brynu bwyd.



Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau a adroddwyd amdanynt o ran adnabod sticeri'r CSHB dros amser yn ôl gwlad.

Dylid nodi: mae'r cylchoedd ar y graff yn nodi lle mae newidiadau sylweddol i'r Cylch diweddaraf. Ffynhonnell: Traciwr y CSHB Cylch 4



Arolwg Bwyd a Chi, Cylch 4²⁰

Bwyd a Chi yw prif arolwg defnyddwyr yr ASB. Mae'n arolwg tebygolrwydd ar hap a gynhelir bob dwy flynedd, gydag arolygon blaenorol yn cael eu cynnal yn 2010, 2012 a 2014. Mae Cylch 4 (2016) yr arolwg yn parhau i ganolbwyntio ar rai o'r meysydd cwestiynu â'r arolygon blaenorol, ac mae hefyd yn cynnwys adrannau newydd ar faterion bwyd ehangach sy'n creu pryder.

Mae'r arolwg Bwyd a Chi yn casglu gwybodaeth gan y cyhoedd am ymddygiadau, agweddau a gwybodaeth mewn perthynas â materion bwyd a diogelwch bwyd. Mae'n darparu data ar arferion prynu, storio, paratoi, a bwyta bwyd yn ogystal â ffactorau sy'n effeithio ar y pethau hyn, megis arferion bwyta, dylanwadau ar ble mae ymatebwyr yn dewis bwyta allan a phrofiadau o wenwyn bwyd. Yn flaenorol, roedd yr arolwg wedi'i gynnal ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r arolwg hwn yn darparu data ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ers 2014, mae canlyniadau Bwyd a Chi wedi'u cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol, sy'n adlewyrchu methodoleg gadarn yr arolwg.


Arolwg 'Bwyd a Chi' Cylch 4 – Amcanion penodol:

- Archwilio dealltwriaeth y cyhoedd o amcan yr ASB i wella diogelwch bwyd ynghyd â pherthynas y cyhoedd â'r Asiantaeth.
- Nodi grwpiau targed penodol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol (hynny yw, y rheiny sydd fwyaf agored i niwed neu'r rheiny y byddai polisiau a mentrau'r ASB yn effeithio arnynt fwyaf).
- Disgrifio agweddau'r cyhoedd tuag at gynhyrchu bwyd a'r system fwyd.
- Monitro newidiadau dros amser (o'i gymharu â data o Gylchoedd 1-3 neu ddata o ffynonellau eraill) mewn agweddau ac ymddygiad.
- Ehangu'r sail dystiolaeth a datblygu dangosyddion i asesu cynnydd wrth gyflawni cynlluniau strategol, amcanion a thargedau'r ASB.

Roedd Cylch 4 (2016) yr arolwg yn cynnwys 3,118 o gyfweliadau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfweliadau eu cynnal rhwng mis Mai a mis Medi 2016, ymhlith sampl gynrychioladol o oedolion 16 oed a hŷn. Cynhyrchwyd adroddiadau unigol ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae adroddiad Gogledd Iwerddon hefyd yn cynnwys adran ar fwyta'n iach. Mae'r Cylch hwn, sef pennod olaf yr adroddiad ar darddiad bwyd, wedi'i ariannu ar y cyd â Defra.


Cyhoeddodd yr adroddiad rai canlyniadau cadarnhaol a defnyddiol iawn i'r ASB; er enghraifft, dangosodd y data gynnydd sylweddol (49%) mewn ymwybyddiaeth o sticer y Cynllun Sgorio ers 2012, a dangosodd ganlyniadau Cylch 4 bod lefelau adnabod y sticer yn uwch yng Nghymru (89%) a Gogledd Iwerddon (89%) na Lloegr (82%):

²⁰ <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/cyngor/bwyd-a-chi>




CSHB yw'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r data hwn yn dangos y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r cyhoedd wrth fwyta allan. Mae'r ystadegau hyn yn cynrychioli cydberthynas uniongyrchol rhwng yr hyn mae'r cyhoedd yn ei ystyried y ffactor pwysicaf wrth fwyta allan, sef hylendid, a'r hyn mae'r ASB wedi ffocysu ei hadnoddau arno, y Cynllun Sgorio. Rydym wrthi'n cefnogi ac yn hyrwyddo beth sy'n hanfodol i ddefnyddwyr.



Mae'r ffeithlun canlynol yn egluro pwysigrwydd y data hwn ymhellach, drwy fanylu ar y canrannau o ddefnyddwyr a oedd yn bwyta allan y mis diwethaf. O ystyried y niferoedd uchel o ddefnyddwyr sy'n penderfynu bwyta allan mewn bwyty, caffi neu siop goffi neu archebu bwyd tecawê, mae gwaith yr ASB ar sicrhau safonau hylendid uchel yn yr amgylcheddau hyn yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ddefnyddwyr.

Bwyta allan yn y mis diwethaf



CYFLAWNI

- Ailstrwythuro gwaith cyfathrebu.
- Datblygu a chytuno ar naratif craidd ar gyfer yr ASB.

Roedd gweithgarwch arwyddocaol arall yn cynnwys:


Byrgys gwaedlyd

- Mae ymchwil yr ASB yn dangos bod yn well gan nifer o bobl, neu fod nifer yn dewis, bwyta byrgyr sy'n binc yn y canol, neu wedi'i goginio'n 'ganolig'. Ond, mae perygl a all ddod â'r dewis hwn. Gall bacteria niweidiol, megis salmonela a mathau penodol o E. coli, achosi gwenwyn bwyd difrifol gyda symptomau megis teimlo'n sâl, chwydu, dolur rhydd gwaedlyd, crampiau yn y stumog a phoen yn yr abdomen, a gall arwain at salwch llawer mwy difrifol a all beryglu bywyd. Cynhaliodd yr ASB weithgarwch cyfathrebu i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn, ac i sicrhau bod pobl yn deall wrth goginio byrgyr gartref, boed hynny ar y barbeciw neu ar y gril, bod yn rhaid i'r byrgyr stemio'n boeth drwyddo, heb unrhyw gig pinc yn y canol, a bod y suddion yn rhedeg yn glir. Roedd angen sicrhau hefyd eu bod yn deall nad yw byrgyr gwaedlyd, waeth pa mor ddrud yw'r cig, yn ddiogel, a pham.
- Lansiodd yr ASB rhaglen o weithgarwch cyfathrebu i gyd-fynd â Diwrnod Cenedlaethol Byrgys a phenwythnos Gŵyl y Banc ym mis Awst. Dangosodd ein hymchwil dracio gynnydd bach yn y nifer a oedd yn cofio gweld gwybodaeth am y mater hwn, ond dim cynnydd mewn gwybodaeth nag ymddygiadau.

Labelu maeth²¹

- Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diwygio ar labelu maeth ar flaen pecynnau yng Ngogledd Iwerddon ym mis Tachwedd 2016 i gynnwys negeseuon ychwanegol i ddefnyddwyr. Yr Adran Iechyd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban a ddatblygodd a diwygio'r canllawiau ar y cyd â Chonsortium Masnachu Prydain, ac maent yn helpu busnesau i ddylunio labeli ar flaen pecynnau eu cynhyrchion.
- Mae'r label ar flaen pecyn wedi'i lunio i helpu defnyddwyr i weld yn hawdd beth sydd yn eu bwyd, ac mae cod lliw - coch, oren a gwyrdd. Mae'r label hefyd yn nodi'r canran o'r dogn â argymhellir (*reference intake*), ac yn dangos faint o fraster, braster dirlawn, halen, siwgr ac egni sydd mewn cynnyrch bwyd.
- Er bod y lliwiau'n cynnig gwybodaeth sy'n hawdd ei gweld, mae canran y dogn a argymhellir yn rhoi ychydig mwy o fanylion o ran faint o bob maethyn sydd mewn dogn, a bydd yn eich helpu chi i'w roi yng nghyd-destun deiet iach a chytbwys. Er enghraifft, mae 50% o halen yn golygu bod dogn yn cynnwys hanner yr hyn y dylai oedolyn ei fwyta ar gyfartaledd o halen ac felly dylech geisio dewis opsiynau sy'n is mewn halen am weddill y diwrnod.

Mae pob byrgyr wedi'i grilio (94g) yn cynnwys



o'r lefelau a argymhellir i oedolion

Gwerthoedd nodweddiadol (fel a werthir) fesul 100g: egni 966kj/230kcal

²¹ www.food.gov.uk/northern-ireland/nutritionni/fop-ni

Gwella Cynnyrch Bwyd

Yn dilyn cyhoeddi 'Childhood Obesity: A Plan for Action', mae lechyd Cyhoeddus Lloegr yn llunio rhaglen waith sy'n canolbwyntio'n bennaf ar leihau siwgr a cholorïau mewn naw categori bwyd sy'n cyfrannu'n bennaf tuag at y siwgr mewn deiet plant. Mae'r pedwar gweinyddiaeth, gan gynnwys yr ASB, yn aelodau o weithgor a sefydlwyd gan lechyd Cyhoeddus Lloegr i ystyried sut i lywodraethu a datblygu'r rhaglen hon.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ASB yn cyflwyno dull wedi'i dargedu ar gyfer rhaglen Gwella Cynnyrch Bwyd gyda busnesau bach a chanolig. Bydd y dull hwn yn ychwanegu gwerth at raglen waith lechyd Cyhoeddus Lloegr a nod yr ASB i gyhoeddi gwybodaeth i'w helpu nhw i gynnig dewisiadau bwyd iachach i'w cwsmeriaid. Bydd cydlynw â Chynllun Gweithredu Gordewdra Gweriniaeth Iwerddon hefyd yn bosibl drwy Weithgor Ail-fformiwleiddio Gweriniaeth Iwerddon.

Bydd y dull ar gyfer gwella cynnyrch bwyd â busnesau bach a chanolig yng Ngogledd Iwerddon yn unol â'r tair blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer lleihau siwgr:

- Lleihau cynnwys siwgr fesul 100g o gynnyrch
- Lleihau maint dognau
- Symud portffolio cynnyrch tuag at gynhyrchion sy'n is mewn siwgr.

Mae data cadw gwyliadwriaeth maeth yn cadarnhau bod yr un categorïau a nodwyd gan lechyd Cyhoeddus Lloegr yn cyfrannu'r lefelau uchaf o siwgr at ddeiet defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. I gyrraedd y mwyafrif o ddefnyddwyr, yn benodol plant a'r rheiny o grwpiau socio-economaid is, bydd cynhyrchion poblogaidd a gaiff eu bwyta gan y mwyafrif o bobl yn aml yn cael eu targedu ar gyfer gwella cynnyrch bwyd.

MenuCal²²

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

Mae MenuCal yn adnodd ar-lein am ddim i helpu busnesau bwyd reoli gwybodaeth am alergenau a chyfrifo'r calorïau yn y bwyd maent yn ei weini. Mae'n cefnogi strategaeth y llywodraeth i greu 'Dyfodol mwy Ffit i Bawb', sy'n mynd i'r afael â gorbwysedd a phroblemau gordewdra yng Ngogledd Iwerddon. Gall MenuCal helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar yr 14 prif alergen mewn bwyd, a rhoi gwybodaeth i fanwerthwyr i'w helpu i gynnig dewisiadau bwyd iachach i'w defnyddwyr.

- syml ac am ddim
- cynnwys hyfforddiant a chyfarwyddiadau
- cadw gwybodaeth yn ddiogel
- cyfrinachol i'r defnyddiwr
- gellir ei deilwra i weddu i bob busnes
- gellir ei ddefnyddio ar declyn symudol sydd â chysylltiad gwe
- dogfennau addas i'w printio

Ymgysylltu â defnyddwyr yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r ASB wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus sydd â'r nod o ddarparu negeseuon diogelwch bwyd allweddol i ddefnyddwyr. Mae'r ASB yng Nghymru wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Sioe Sir Benfro, a nifer o ddigwyddiadau yn y gymuned. Mae'r ASB yng Nghymru hefyd wedi cefnogi rhaglen addysgiadol o weithdai mewn ysgolion.

²² www.food.gov.uk/northern-ireland/nutritionni/menucal

AMCAN CYFFREDINOL

Cyflwyno ein strategaeth reoleiddio drwy alinio cymhelliannau i fusnesau i sicrhau y caiff buddiannau defnyddwyr eu diogelu

CYFLWYNO EIN STRATEGAETH RHEOLEIDDIO

Prif fentrau yn y maes hwn:

RHEOLEIDDIO EIN DYFODOL



Amcan cyffredinol:

Datblygu a gweithredu dull newydd a chynaliadwy o reoleiddio, sy'n newid ymddygiad busnesau er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr. Adeiladu a chyflwyno pecyn cyfathrebu rheoleiddio, sy'n sicrhau dull cyflwyno cynaliadwy tymor hir i reoleiddio bwyd, gan gynnwys datblygu modelau cyflenwi ategol neu amgen – sy'n cael eu hariannu'n gynaliadwy – ar gyfer cig.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

- Datblygu model ar gyfer rheoleiddio bwyd yn y dyfodol drwy ymgysylltu a chydweithio.
- Cyflwyno proses i gyflawni cwrpas a chynllun rhaglen.
- Nodi a pheilota prosiectau, profi a chyflwyno lle bo'n briodol.
- Nodi newidiadau yn y tymor agos i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a all leihau'r pwysau ar awdurdodau lleol.

Crynodeb o'r cynnydd:

Mae'r ASB wedi bod yn gweithio â'r diwydiant a rhanddeiliaid i ddatblygu system reoleiddio newydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a fydd yn cadw'n gyfredol â newidiadau bwyd byd-eang, a gweithio'n well i bawb. Mae'n gosod y safonau y bydd gofyn i fusnesau eu gweithredu, ac yn defnyddio technoleg newydd a'r data a gesglir gan fusnesau o'u harchwiliadau a'u gwiriadau eu hunain, fel y gall arolygwyr weld beth sy'n digwydd bob dydd, nid ar y diwrnod arolygu yn unig. Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu clir ar gyfer y rhaglen, sy'n cynnwys ymgysylltu â'r diwydiant, awdurdodau lleol a defnyddwyr.

**GWELLA'R MODEL AROLYGU CIG****Amcanion ar gyfer 2016/17:**

Drwy ein gwaith ar y tirlun cyflawni ar gyfer cig, hoffem fanteisio ar well ffyrdd o weithio ac o ddefnyddio technoleg, gan sicrhau bod rheolaethau swyddogol ar gyfer cig yn seiliedig ar risg, wedi'u targedu, ac nad ydynt yn ddrytach nag y dylent fod. Hoffem hefyd gynyddu ein heffeithiolrwydd a'r gwerth am arian a ddarperir drwy ein rheolaethau swyddogol, ynghyd â chyfrannu at ddatblygu model ariannu mwy cynaliadwy.

Crynodeb o'r cynnydd:

Datblygwyd system newydd i wella gwiriadau hylendid lladd-dai; cynigiwyd dull peilota a chynhaliwyd gwaith â'r diwydiant ar y model ar gyfer y dyfodol. Lanswyd Cyfnod Stow 1 (yn cynnwys diwygio disgownt rheolaethau swyddogol cig) a chwblhawyd y gwaith cynllunio ar gyfer Cyfnod Stow 2 (datblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer rheolaethau cig swyddogol).

**PERFFORMIAD****Gwellar model arolygu ar gyfer cig**



Swyddogaeth bwysig i arolygwyr yr ASB yw arolygu carcasau ac offal mewn arolygiadau post-mortem. Mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr, fel rhan o'n gwaith monitro perfformiad ansoddol, bydd Milfeddyg Swyddogol yn gwirio sampl o garcasau ac offal sydd â marciau iechyd (neu eu harolygu, ar gyfer dofednod). Yng Ngogledd Iwerddon, caiff arolygiadau post-mortem eu cynnal gan Swyddogion Ategol o Raglen Filfeddygol Iechyd y Cyhoedd yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA). Caiff cywirdeb ei ddilysu yn ddyddiol gan Swyddogion Cynorthwyol DAERA neu gan Uwch Arolygwyr Cig.

Rhag 2016	Gwartheg	Defaid/Geifr	Moch	Dofednod
Cywirdeb Cyfartalog Carcasau (%)	99.8	99.3	99.8	99.6
Nifer y Carcasau a Wiriwyd	13,679	24,965	14,451	352,135
Cywirdeb Cyfartalog Offal (%)	99.9	99.9	100	
Nifer yr Offal a Wiriwyd	13,323	24,857	13,675	

Canllawiau rheoli ar gyfer cywirdeb Arolygiadau Post Mortem

≥98%	<98%
------	------

Defnyddir lefelau cydymffurfio cyfartalog yn dilyn gwiriadau dilysu arolygu post-mortem yng Nghymru a Lloegr fel ffordd o fesur pa mor dda mae mesurau rheoli diogelwch gweithredwr y busnes bwyd wedi gweithio. Lle gwelir halogiad, mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd ei gywiro cyn y gallai'r cig gael mynediad i'r gadwyn fwyd. Defnyddir goleuadau traffig er mwyn cyfeirio adnoddau arolygu'r ASB at y gweithredwyr busnesau bwyd hynny sy'n cydymffurfio i'r graddau lleiaf. Nid oes lefel dderbyniol o halogiad.





Rheoleiddio Ein Dyfodol

Cynhaliom fforymau trafod â busnesau bach a chanolig, awdurdodau lleol a Phrif Awdurdodau, i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Model Gweithredu Targed. Roedd cyfle i'r busnesau bach a chanolig y siarad â chynrychiolwyr o'r ASB ac awdurdodau lleol, ac aeth awdurdodau lleol ati i archwilio cyfleoedd i gynnal astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio â busnesau i sicrhau cydymffurfiaeth. Cefnogwyd a chynhaliwyd y digwyddiad â Phrif Awdurdodau a'u busnesau partner mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r Adran Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol, sydd â'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun Prif Awdurdod.

Mae Grwpiau Cyngori Arbenigol y Diwydiant a Gweithwyr Proffesiynol wedi'u sefydlu i roi cyngor a chanllawiau i'r ASB. Maent wedi cwrdd tair gwaith ers mis Medi i fynegi eu safbwyntiau cychwynnol ar ystod o faterion, gan gynnwys caniatâd i fasnachu a sicrwydd.

Mae gwaith wedi dechrau ar y Model Gweithredu Targed, a fydd yn sail i'r model newydd. Fframwaith o safonau a fydd yn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni canlyniadau'n gyson, ac yn y pen draw, bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Rydym wedi cynnal astudiaethau dichonolrwydd gyda Tesco a Mitchells & Butlers i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio data'r diwydiant mewn modelau sicrwydd. Cwblhawyd y rhain ar amser, ac mae'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi. Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2016, aeth yr ASB ati i gydweithio â Tesco, Mitchells & Butlers, eu darparwyr archwilio, a rhai awdurdodau lleol er mwyn profi data sicrwydd y cwmnïau hynny yn erbyn y gofynion diogelwch bwyd cadarn mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i wirio bod busnesau yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Mae rhagweld, cynllunio a gweithredu ar ganlyniadau ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol i'r ASB. Mae'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn gweithio'n agos â chydweithwyr sy'n arwain ar gynllunio ar gyfer ymadael er mwyn sicrhau bod y model cyflawni newydd yn gyson â'r paratodau parhaus.

Gwella'r model arolygu ar gyfer cig

- Aethom ati i ddatblygu system newydd i wella'r dull o ddilysu hylendid mewn lladd-dai.
- Cynigiwyd dull peilota ar gyfer cofnodi gwiriadau dilysu mewn ffordd ansoddol mewn lladd-dai.
- Fe wnaethon ni weithio â chydweithwyr yn y diwydiant ar argymhellion mewn perthynas â sut dylai'r model edrych yn y dyfodol.

Lles anifeiliaid²³

Cyflwynodd yr ASB ddull systematig i gyflawni'r agenda lles anifeiliaid 'Atal, Rhwystro, Canfod, Gorfodi'. Roedd yn ymrwymo i ddull 'dim goddefgarwch' o ran y rheiny a oedd yn torri rheolau lles anifeiliaid. Daeth bwrdd yr ASB i'r casgliad bod yr achos am orfodi camerâu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai wedi'i wneud. Rydym wedi sefydlu tîm sicrwydd lles i annog gwell lefelau cydymffurfio a mesurau lles anifeiliaid cryfach yn y fframwaith rheoli newydd ar gyfer y contract gwasanaethau milfeddygol newydd. Fe weithion ni â'r diwydiant i ddatblygu protocol ar y cyd ar ddefnyddio CCTV mewn lladd-dai, a rhoi trefniadau rheoli a llywodraethu ar waith i sicrhau y caiff

²³ www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa160904.pdf

holl rwymedigaethau ein rhaglen lles anifeiliaid eu cyflawni'n amserol ac yn effeithiol, 'Atal, Rhwystro, Canfod, Gorfodi'.

Prosiect Stow: model ariannu cynaliadwy²⁴

Dechreuodd y grŵp llywio ar godi tâl ar gyfer cig ddatblygu system newydd o ddisgowntiau ar gostau rheolaethau swyddogol cig ym mis Awst 2013. (Caiff rhai gwasanaethau 'rheolaethau swyddogol' yr ASB mewn safleoedd cig cymeradwy eu talu gan weithredwyr busnesau bwyd.)

Roedd y grŵp llywio yn cynnwys unigolion o'r diwydiant cig yn dod ynghyd, gyda Bill Stow yn gadeirydd annibynnol, gyda chefnogaeth yr ASB.

Roedd cynigion y diwydiant ar gyfer diwygio yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn 2015. Yn dilyn cyflwyno'r cynigion terfynol i Bwyllgor Lleihau Rheoleiddio'r Llywodraeth a'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio, cawsant eu cymeradwyo i'w rhoi ar waith, a gwnaed hynny o ddechrau 2016/17. Mae'r system newydd o ddisgowntiau yn gyson ac yn fwy teg na'r un flaenorol.

Ar y cyd â champau olaf Prosiect Stow 1, dechreuwyd prosiect arall i ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer rheolaethau cig swyddogol. Aeth rhanddeiliaid o'r diwydiant cig ati i arwain ar ddatblygu cynigion ar gyfer system codi tâl.

Wrth i waith fynd rhagddo yn ystod 2016, gwelwyd bod newidiadau yn yr amgylchedd allanol wedi effeithio cryn dipyn ar waith y grŵp llywio. Arweiniodd canlyniad refferendwm Mehefin 2016, a'r penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, at ddeinameg wahanol. O'r herwydd, daeth y grŵp llywio i'r casgliad y dylid gohirio ei waith ar y model ariannu cynaliadwy tan sefydlu'r rheolaethau swyddogol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Cadarnhawyd y safbwynt hwn gan Fwrdd yr ASB yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017.

Contract rheolaethau cig

Ym mis Mawrth 2017, cynigiodd yr ASB contract dwy flynedd i Eville and Jones (UK) i gefnogi gwasanaethau Rheolaethau Cig Swyddogol yr ASB, yn dilyn proses dendro gystadleuol.

Bydd y gwasanaeth hwn, sy'n werth £43.4 miliwn dros ddwy flynedd, yn gweithredu i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, ac y caiff lles anifeiliaid ei ddiogelu mewn sefydliadau cig, gan helpu'r Asiantaeth i fodloni safonau'r Undeb Ewropeaidd a rhai domestig.



Penodwyd Eville and Jones (UK) Ltd yn dilyn proses dendro yn erbyn nifer o feini prawf technegol ac ariannol. Bydd y cwmni o Leeds yn darparu Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig, gan weithio ar y cyd â staff yr ASB ar draws Cymru a Lloegr.

Mae rheolaethau swyddogol cig yn hanfodol wrth gynnal hyder y cyhoedd yn y diwydiant cig, yn enwedig yn dilyn yr achosion o BSE a chig ceffyl. Mae'r rheolaethau yn ofyniad gorfodol yn niwydiant cig y Deyrnas Unedig, gan na fyddai hawl i werthu neu allforio cig hebddynt, sy'n werth £7.3 biliwn y flwyddyn.²⁵

²⁴ www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa160307.pdf

²⁵ <https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2017/15907/successful-tender-for-official-meat-controls>

AMCAN CYFFREDINOL

Sicrhau effaith fawr o adnoddau bach

.....
BOD Y
SEFYDLIAD
GORAU Y
GALLWN FOD

Prif fentrau yn y maes hwn:

RHAGLEN EIN FFORDD O WEITHIO (OWOW)

Amcan cyffredinol:

Adeiladu sefydliad bywiog, blaengar sy'n dysgu, ac sy'n atynnu a chadw'r staff gorau sy'n frwdfrydig i gyflawni, yn cydweithio ac wedi'u harwain yn dda.

Amcanion ar gyfer 2016/17:

- Parhau i wella canlyniadau ymgysylltu staff, i fod ar yr un lefel ag Unedau Perfformio Uchel y Gwasanaeth Sifil yn Arolwg Pobl 2016.
- Cwblhau'r 'Cynnig Pobl' a gofodau ffisegol.
- Darparu cefnogaeth, datblygiad ac offer i bobl wneud y mwyaf o ffyrdd newydd o weithio.

Crynodeb o'r cynnydd:

Cafodd yr ASB gyfradd ymateb uchel iawn yn arolwg eleni, 84.9%. Mae sgôr ymgysylltu staff wedi gostwng ychydig o 60% i 58%, er ei fod yn llawer gwell na sgôr 2013 a 2014. Lanswyd y 'Cynnig Pobl', yn ôl y bwriad, ym mis Mawrth 2017, ac mae staff Cyfnod 1 yn treialu contract gwaith newydd ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio Foss House (Caer Efrog), ac rydym wedi rhoi rhybudd swyddogol ein bod yn gadael yn Aviation House (Llundain). Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgysylltu staff gan uwch swyddogion yr ASB, i gefnogi staff yn ystod cyfnod trosglwyddo OWOW. Mae Evolve IT wedi gwneud cynnydd da wrth ddarparu'r gefnogaeth a'r isadeiledd hanfodol i sicrhau llwyddiant OWOW.

BOD YN SEFYDLIAD SY'N CAEL EI LYWIO GAN DDATA

Amcan cyffredinol:

Mae gan yr ASB fynediad at y data sydd ei angen arni i fod yn effeithiol ar draws yr holl flaenoriaethau strategol, ac mae'n gwneud defnydd llawn o'r data hwn.

Amcanion ar gyfer 2016/17

- Cyflwyno proses i sicrhau ein bod yn 'agored yn bennaf', a gwerthuso effeithiolrwydd drwy'r cyfnod adrodd.
- Datblygu strategaeth ddata.
- Nodi prosiectau peilot, a'u profi a'u cyflwyno lle bo'n briodol.

Crynodeb o'r cynnydd:


Mae bod yn agored a thryloyw yn ganolog i gynllun strategol yr ASB, ac mae'r ASB yn parhau â'i gwaith i ddod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata. Roedd gennym nod o gyhoeddi 95% o'n setiau data. Cyhoeddom 174 o 274 (64%). Pan ddechreuodd y gwaith cyhoeddi, nodwyd nifer o setiau data eraill yr oedd gofyn eu cyhoeddi, gan effeithio ar ein gallu i gyrraedd ein targed. Mae gennym well ddealltwriaeth o'r asedau sy'n briodol i'w cyhoeddi, ac rydym yn gwella cyrhaeddiad safonau data agored a chyhoeddi fwy nag unwaith, gan gadw'r % cyhoeddi.




PERFFORMIAD

Rydym yn defnyddio sgoriau'r Arolwg Pobl ar gyfer Perfformiwr Uchel y Gwasanaeth Sifil fel meincnod o lefelau ymgysylltu uchel, ond yn profi ac yn blaenoriaethu gweithgarwch o ganlyniad i'r arolwg hwn yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a rhaglenni sy'n bodoli eisoes i sicrhau negeseuon cyson. Mae Cynllun Gweithredu Arolwg Pobl Corfforaethol 2017 wedi'i lansio, a bydd yn canolbwyntio ar wella dau brif faes: arwain a rheoli newid, a datblygu a chynyddu ein gallu rheoli.

Indecs Ymgysylltu Cyffredinol



Sgoriau Themâu 2016



Gwelodd yr ASB gyfradd ymateb gref iawn (89.4%) yn arolwg 2016, sydd llawer yn uwch na chyfradd ymateb y Gwasanaeth Sifil (65%). Bu i'r ASB ragori ar gyfartaledd y Gwasanaeth Sifil ar gyfer Dysgu a Datblygu, ac roedd yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Arwain a Rheoli Newid ac Adnoddau a Llwyth Gwaith. 58% oedd ein sgôr ymgysylltu, sydd ychydig yn is na'r 60% ar gyfer 2015 a oedd un pwynt yn is na'r Gwasanaeth Sifil, a chwe phwynt yn is na'r perfformwyr uchel – lle rydym yn anelu i fod. Fodd bynnag, roedd ein sgoriau'n well na 2014.

Cytunodd Tîm Rheoli Gweithredol yr ASB ar gynllun gweithredu corfforaethol i weithredu gwelliannau cryf yn y meysydd arwain a rheoli newid, a datblygu a chynyddu ein gallu rheoli. Bydd yr ASB yn rhoi'r fframwaith newid newydd a chanllawiau ar waith yn llawn. Bydd uwch arweinwyr yn fwy gweladwy drwy sesiynau rhyngweithiol, yn esbonio blaenoriaethau ac yn dathlu llwyddiant, a byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a gallu rheoli llinell ymhellach.

Ein Ffordd o Weithio (OWOW)

Sefydlwyd y rhaglen OWOW i greu amgylchedd lle mae ein staff yn alluog iawn, lle cânt gefnogaeth effeithiol a lle maent yn rhan o'n gweledigaeth – bwyd y gallwn ymddiried ynddo – fel y gallant barhau i ddewis gwneud cyfraniadau arwyddocaol i ddiogelu defnyddwyr, a rhoi gwybodaeth a phŵer iddynt. Prif nod y rhaglen yw greu sefydliad bywiog sy'n atynnu ac yn cadw'r staff gorau, staff sy'n ymgysylltu, yn frwdfrydig, yn arloesol, yn cydweithio ac wedi'u harwain yn dda, ac sydd wedi'u cefnogi'n gywir. Caiff hyn ei gyflawni drwy ffrydiau gwaith ategol sy'n cynnwys datblygu'r sefydliad, datblygiad personol a swyddfeydd.

Cynhaliwyd Cyfnod 1 y rhaglen o wanwyn 2015 hyd at haf 2016, ac roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiffinio'r hyn rydym eisiau ei gyflawni, gan weithio'n agos â staff i ddeall y newidiadau sydd eu hangen, dylunio tri math o gontract cyflogi (gweithio o adref, aml-leoliad, lleoli yn y lladd-dy/ swyddfa), a chyflawni cyfnod treialu i ddod ag unrhyw bryderon neu faterion posibl y byddai angen eu goresgyn i'r amlwg.

Lansiwyd Cyfnod 2 ym mis Mawrth 2017, ac roedd hyn yn cynnwys y Cynnig Pobl, rhan hanfodol o raglen OWOW, sy'n rhoi cyfle i'r staff ddewis ffordd o weithio a fydd yn eu helpu i ragori, gan sicrhau gwell cydbwysedd â bywyd y tu allan i'r gwaith. Bydd staff nawr yn gweithio'n agos â'u rheolwyr i ddewis y contract gorau iddyn nhw a'u gwaith. Er mai'r nod yw rhoi hyblygrwydd i staff ddewis y math o gontract sydd fwyaf addas iddynt, yr anghenion busnes fydd yr ystyriaeth bennaf. O achos natur 'penodol i leoliad' eu gwaith, bydd staff arolygu yn parhau i fod ar gontract wedi'i leoli yn y lladd-dy, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi sut gall y staff hefyd elwa ar rai o egwyddorion OWOW.

Gofodau ffisegol

Yn dilyn cyfarwyddyd gan Uned Eiddo'r Llywodraeth, mae'r ASB wedi defnyddio cymal terfynu mis Chwefror 2018 yn ein swyddfa yn Llundain, sef Aviation House yn Holborn. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i adael Aviation House, a chanfod swyddfa newydd addas yn Llundain o fewn ystâd y llywodraeth. Rydym wedi cytuno ar feini prawf lefel uchel ar gyfer symud, ac mae'r ASB wedi bod yn gweithio'n agos ag Uned Eiddo'r Llywodraeth i ganfod safle effeithlon ac effeithiol yn ariannol, sy'n bodloni anghenion ein staff.

Yn ogystal, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ail-ddylunio ein swyddfa yng Nghaer Efrog, Foss House, i sicrhau ei fod yn ymgorffori egwyddorion OWOW. Cynhaliwyd ymgynghoriadau staff ym mis Ionawr 2017, a disgwyliar y bydd y gwaith ailwampio yn dod i ben ym mis Hydref 2017. Mae trafodaethau'n parhau ag Uned Eiddo'r Llywodraeth mewn perthynas â swyddfa Caerdydd yn Southgate House.

Evolve IT

Er mwyn cyflawni gweledigaeth OWOW, mae'n hynod bwysig bod gennym yr isadeiledd a'r gefnogaeth technoleg gwybodaeth gywir. Yn 2016, cyflwynodd yr ASB strategaeth technoleg gwybodaeth newydd, ynghyd ag adnewyddu'r sefyllfa dechnoleg gwybodaeth gyda'r rhaglen Evolve IT.

Cwblhawyd cyfnod cyntaf y rhaglen Evolve IT ddiwedd mis Awst 2016; sefydlwyd bwrdd i'r rhaglen, a chytunwyd ar lythyr mandad. Bu'r rhaglen yn destun dau Adolygiad Gateway ym mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017, a chan ddefnyddio'r egwyddor dylunio o roi'r defnyddiwr yn ganolog, cynhaliwyd ymchwil defnyddwyr dros gyfnod o bedwar mis. Nod yr ymchwil oedd deall

blaenoriaethau anghenion defnyddwyr yr oedd angen mynd i'r afael â nhw i gefnogi staff yr ASB i fod yn fwy cynhyrchiol, gan ystyried y newidiadau o ran lleoliad a chontractau gwaith y staff dan y rhaglen OWOW. Daeth camau darganfod a dylunio'r cyfnod paratoi i ben ar 31 Mawrth 2017.

Cyhoeddodd yr ASB Hysbysiad Terfynu i Capita; dyma'r cam cyntaf o ddod â chefnogaeth Capita IT i ben, ac o 31 Ionawr 2018 bydd yr ASB yn berchen ar hawliau rheoli a dylunio ei thechnoleg, gan alluogi dull hyblyg wrth gyflawni newid.

Data agored

Yr amcan cyffredinol ar gyfer dod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata, yw y bydd gan yr ASB fynediad at y data sydd ei angen arni er mwyn bod yn effeithiol ar draws yr holl flaenoriaethau strategol, ac yn gwneud defnydd llawn o'r data hwn. Cymerodd yr ASB y camau cyntaf i'r cyfeiriad hwnnw yn 2016/17.

Data y gall unrhyw un gael mynediad ato, ei ddefnyddio neu ei rannu yw data agored. Un o amcanion yr ASB yw dod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata ac sy'n defnyddio data sy'n 'agored yn bennaf'. Mae defnyddio data agored yn un o'r ffyrdd y bydd yr ASB yn cyflawni ei hymrwymiad i'r cynllun strategol o wneud gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr mewn modd hygyrch.

Ym mis Ionawr, cyflwynodd fwrdd yr Asiantaeth 'agored yn bennaf' – yn unol ag ymroddiad adrannau eraill i gyhoeddi data'r Asiantaeth i'w ddefnyddio gan bawb, os nad oes rheswm da i beidio. Yn dilyn hyn, cyflwynodd yr Asiantaeth darged, bod 95% o'i asedau data'n cael eu cyhoeddi fel data agored. Fel adran o'r Llywodraeth sydd â thryloywder wrth ei chalon, mae'r Asiantaeth yn uchelgeisiol yn y maes hwn.

Catalog data agored yr ASB: <https://data.food.gov.uk/catalog>


Ein taith data agored hyd yn hyn...

Cyhoeddwyd

174

o setiau data (o 274)

=



- Wedi'u cyhoeddi'n flaenorol
- Wedi'u cyhoeddi yn Chwarter 4
- Heb eu cyhoeddi

... ac yn Chwarter 4 2016/17, cyhoeddwyd

82

o setiau data

Targed: cyhoeddi 95% o setiau data fel data agored erbyn diwedd 2016/17

Mae canran y setiau data sydd wedi'u cyhoeddi wedi cynyddu o 34% ar ddiwedd chwarter 3 i 64% ar ddiwedd chwarter 4

Sgôr 'bod yn agored' cyfartalog yr ASB

Rhoddir 'sgôr bod yn agored' i setiau data i nodi'n syml i ba raddau mae'r set data wedi'i wneud yn agored. Mae'r meini prawf yn seiliedig ar Bum Seren Bod yn Agored a ddatblygwyd gan Tim Berners-Lee. Mae gan 7% o setiau data sydd wedi'u cyhoeddi Sgôr Bod yn Agored o 3 neu uwch. Rydym ni'n anelu am 3 seren.

Gosodwyd y targed uchel o 95% i ddangos bod yr ASB yn bwriadu gwneud cymaint o'i data yn agored ag sy'n bosibl. Gosodwyd y targed yn un uchelgeisiol.

Mae'r raddfa sgorio sêr yn fesur ansoddol. Gyda thair seren, mae'r data llawer yn haws ei ddefnyddio gan eraill. Er mwyn galluogi sgôr o 4 neu 5 seren, mae'n ofyniad cynhyrchu data â dolenni sy'n bodoli ar y we, mae angen gwybodaeth arbenigol, ac mae fel arfer yn golygu talu i drydydd parti ei adeiladu a'i gynnal. Felly, nid yw cael mwy na thair seren ar gyfer y mwyafrif o gyhoeddiadau data yr ASB yn rhesymol gyraeddadwy.

Cytunodd Bwrdd yr ASB i wella'r data a gyhoeddir, a symud o 1 seren i 3.



Ein Ffordd o Weithio

- Daeth y cyfnod 'rhoi cynnig arni' i ben a daeth y canlyniadau ymgynghori i law.
- Datblygwyd achos ariannol ar gyfer yr achos busnes cyflawn.
- Datblygwyd cynllun rhaglen Cyfnod 2.
- Cytunwyd ar y Cynnig Pobl terfynol, gyda chanllawiau a pholisïau i gefnogi ar waith.
- Dadansoddwyd sgoriau'r Arolwg Pobl.
- Gwnaed y penderfyniad i dorri'r cymal terfynu ar gyfer Aviation House.
- Cwblhawyd y gwaith chwilio am leoliad.

Bod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata

- Datblygwyd y strategaeth ddata a chafodd ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol.
- Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf (allanol) a mis Medi (mewnol).
- Cyhoeddwyd canlyniadau'r cynllun peilot cyntaf, a gwnaed gwaith i nodi dau gynllun peilot arall.
- Datblygwyd map o'r ecosystem fwyd mewn perthynas â rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

Y PRIF RISGIAU AC ELFENNAU ANSICR

Caiff yr wybodaeth hon ei hadrodd fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2016/17 ar dudalen 63.

TREFNIADAU CHWYTHU CHWIBAN

Caiff yr wybodaeth hon ei hadrodd fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2016/17 ar dudalen 63.

Mae cyfrifon yr Asiantaeth a manylion perthnasol eraill wedi'u cynnwys yma er gwybodaeth. Fe'u cyflwynir yn Saesneg yn unig oherwydd eu natur dechnegol.

PERFORMANCE ANALYSIS

FORMAL ENFORCEMENT ACTION

In accordance with the requirements of the Food Standards Act 1999, we report each year on enforcement action taken.

Statutory notices may be served for failures in hygiene, unsatisfactory structural matters, to stop the use of particular types of equipment, to impose conditions on the meat production process, to close down the operation completely, or to stop a particular practice that contravenes the hygiene provisions of the legislation. Statutory notices must accurately reflect the non-compliance, refer correctly to the relevant legislation, and be clearly legible and unambiguous, to be legally valid.

England and Wales: formal and informal enforcement action taken during 2016/17

Formal action	Number of notices 1 April 2015 to 31 March 2016	Number of notices 1 April 2016 to 31 March 2017
Hygiene Emergency Prohibition Notice , served under the Food Hygiene (England) (Wales) Regulations 2006, giving a food business operator a day's notice of the intention to apply to a court for the granting of a Hygiene Emergency Prohibition Order which would result in an immediate cessation of business	Nil	Nil
Hygiene Improvement Notice served under the Food Hygiene (England) (Wales) Regulations 2006	168	198
Remedial Action Notice served under the Food Hygiene (England) (Wales) Regulations 2006	113	166

Informal action	Number of warnings notices 1 April 2015 to 31 March 2016	Number of warnings 1 April 2016 to 31 March 2017
Written warning	1,766	2,567

The increase in the number of notices issued from 2015/16 to 2016/17 is mainly due to our focus on animal welfare. Our ongoing programme to 'Deter, Prevent, Detect and Enforce' animal welfare breaches has improved consistency of reporting in this area.

Northern Ireland: formal and informal enforcement action taken during 2016/17

Formal action	Number of notices 1 April 2015 to 31 March 2016	Number of notices 1 April 2016 to 31 March 2017
Hygiene Emergency Prohibition Notice , served under the Food Hygiene (Northern Ireland) Regulations 2006, giving a food business operator a day's notice of the intention to apply to a court for the granting of a Hygiene Emergency Prohibition Order which would result in an immediate cessation of business	Nil	Nil
Hygiene Improvement Notice served under the Food Hygiene (Northern Ireland) Regulations 2006	11	7
Remedial Action Notice served under the Food Hygiene (Northern Ireland) Regulations 2006	9	2

Informal action	Number of warnings notices 1 April 2015 to 31 March 2016	Number of warnings 1 April 2016 to 31 March 2017
Written warning	52	24

The continued downward trend in formal and informal enforcement actions is largely as a result of improved compliance levels by food business operators.

Prosecutions in England and Wales

Following an investigation referral and full criminal investigation, prosecutions of offences committed at approved premises can be taken by the relevant enforcement authority. In England and Wales, prosecutions are taken by the FSA except in relation to animal welfare, animal by-products and some transmissible spongiform encephalopathy (TSE) cases where the Crown Prosecution Service acting on behalf of the Department for Environment, Food & Rural Affairs or the Welsh Government is the prosecuting authority. In 2016/17, the FSA Criminal Investigation Branch accepted 97 referrals from Operations Directorate for investigation with a view to prosecution.

The timescales for prosecutions mean that it is rare for a case to progress from referral to a final court hearing within the same reporting year. Therefore, many of the cases referred for investigation in 2016/17 have yet to be concluded.

During the course of 2016/17, 16 cases investigated by the FSA were concluded at court with 13 convictions secured. A further 6 cases are currently being prosecuted.

There were 58 recorded investigation referrals in England and Wales during 2015/16. The outcomes of current status of those referrals are as follows:

Outcomes/current status	Number of referrals
Convictions	5
Warning letters issued	2
Ongoing prosecutions in court	5
No prosecution taken	46

COMPLAINTS INCLUDING THOSE MADE TO THE PARLIAMENTARY AND HEALTH SERVICE OMBUDSMAN

Complaints to the Parliamentary and Health Service Ombudsman (PHSO) from members of the public must be made via an MP.

During 2016, one complaint was accepted for investigation by the PHSO. As a result of the investigation it was concluded that the FSA had acted correctly and appropriately in line with legislation. There was no evidence of maladministration and the complaint was not upheld.

The FSA aims to resolve all complaints quickly and as close as possible to the point of service. Complaints are therefore handled initially at a local service level. If, however, a complainant is not satisfied by a local response, they can refer their complaint, using the FSA's two-stage complaints process. Information on our complaint handling process can be found on the FSA website: www.food.gov.uk/about-us/fsacomplaintsprocedure

The FSA will always seek to learn from complaints and address any issues identified through the complaints process. During 2016, this included providing refresher training to staff as well as making changes to the management of contract performance.

The FSA received three complaints from members of the public or food businesses during 2016 at stage two of the process. Of these complaints, none were upheld in full, two were partially upheld and one was not upheld. One complaint originally submitted in 2015 was referred to stage two, which is a review by the FSA Chief Executive. This case was partially upheld.

SUSTAINABILITY REPORTS

During 2016/17, FSA has made significant progress on sustainability. The FSA has reduced its Aviation House waste carbon footprint from the 2015/16 total of 29 tonnes to 22 tonnes – a major reduction of 4 tonnes on the 26 tonnes baseline target.


The work is continuing to reduce FSA emissions at Aviation House, which has seen a reduction in energy usage and a corresponding fall in greenhouse gas emissions by 71 tonnes.


In 2016/17, the FSA has maintained CO₂ emissions in line with last year due to the continued focus on reducing the need to travel under a new programme of work called Our Ways Of Working (OWOW) – this has re-emphasised the continued awareness of alternatives to travel, including the use of the high definition videoconference facilities available in all of the FSA offices to hold 4-way videoconference meetings. This has removed the need to travel.

Sustainability developments will be maintained further during 2017/18 with the OWOW programme driving a reduction in the accommodation occupied in York by 45%.

The following table reports greenhouse gas emissions and related expenditure in Wales

Greenhouse gas emissions






	Non-financial indicators – Scope 2 (indirect)			
	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
 Total energy consumption (KWH) ⁱ	<u>27,792</u>	<u>25,902</u>	<u>20,993</u>	<u>23,509</u>


	Financial indicators (£)			
	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
 Total energy expenditure	<u>6,014</u>	<u>5,009</u>	<u>2,487</u>	<u>2,793</u>

i Electricity only. No gas supply.

The following table reports waste data and related expenditure.

Waste

	Non-financial indicators (tonnes)			
	2013/14	2014/15 ⁱⁱ	2015/16 ⁱⁱ	2016/17 ⁱⁱ
 Recycled/reused waste	0.7	0.5	N/A	N/A
 Landfill	N/A	N/A	0.18	N/A
 Waste incinerated	N/A	N/A	N/A	N/A
 Confidential waste	0.4	1.65	N/A	N/A
